Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 13 Mehefin 2013**

Amser:
**09:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk


## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru: Ymchwiliad ar ôl adroddiad - tystiolaeth gan Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 52)

E&S(4)-17-13 papur 1
Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru
Alun Davies AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Rosemary Thomas, Pennaeth Cynllunio

**Egwyl 11.00 - 11.15**

### 3 Ymchwiliad i rywogaethau goresgynnol estron - Tystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru (11.15 - 12.00) (Tudalennau 53 - 76)

E&S(4)-17-13 papur 2
Chris Lea, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth
Martin Williams,Pennaeth Uned Iechyd Planhigion a Bio-Technoleg
David Thomas, Pennaeth Tîm Hadau a Plaleiddiaid

### 4 Papurau i'w nodi (Tudalennau 77 - 78)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai

## Y Sefyllfa Ddiweddaraf mewn perthynas ag Ymatebion i argymhellion unigol

***Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy i weithredu fel corff cydgysylltu gyda chynrychiolwyr o'r llywodraeth, datblygwyr a rheoleiddwyr.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae cyngor yn cael ei baratoi ar gyfer Gweinidogion ac mae disgwyl y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud cyn diwedd mis Ebrill.

***Argymhelliad 2. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i ryddhau'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Fe wnaethom gomisiynu Hyder i werthuso prosesau cydsynio prosiectau ynni adnewyddadwy er 2005 yng Nghymru. Cyhoeddwyd hwn ym mis Ionawr ac, fel rhan o'r Papur Gwyn ar Gynllunio, byddwn yn ystyried sut y gallwn wella prosesau cydsynio'r holl gynlluniau ynni adnewyddadwy o dan 50 megawat.

Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid pwysig gan gynnwys yr heddlu, yr Asiantaeth Priffyrdd, Awdurdodau Priffyrdd Lleol, cwmnïau ynni adnewyddadwy a'r Grid Cenedlaethol er mwyn ceisio sicrhau bod materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yng nghanolbarth Cymru yn cael eu datrys yn ddigonol.

***Argymhelliad 3.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu trefniadau gweithio ffurfiol, yn enwedig ar lefel ranbarthol, ar gyfer delio â phrosiectau ynni adnewyddadwy (agenda Simpson).*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym wedi cyhoeddi casgliad o dystiolaeth fel sail i'r Bil Cynllunio. Mae hyn wedi cynnwys argymhellion ynghylch y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, a byddwn yn ystyried hyn fel rhan o'r Papur Gwyn ar Gynllunio. Un o'r profion o gadernid ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r gofyn i ystyried y cynlluniau, y polisïau a'r strategaethau perthnasol sy'n ymwneud ag ardaloedd cyfagos, a byddwn yn parhau i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn rhoi sylw i faterion ar lefel ranbarthol.

***Argymhelliad 4.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cynllun Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru erbyn diwedd 2013. Byddai'r cynllun hwn yn cyd-fynd â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn cael ei integreiddio â'r Cynllun Gofodol Morol ac yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio prosiectau ynni yng Nghymru yn y dyfodol. Dylai'r fframwaith fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai archwiliad annibynnol brofi pa mor "gadarn" ydyw cyn ei fabwysiadu.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Yn dilyn ymgynghoriad y papur gwyrdd *Cynnal Cymru Fyw* yn 2012, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r opsiynau er mwyn datgan y dull gorau o weithredu i gyflawni amcanion Cynllun Adnoddau Naturiol. Yn y pen draw, y nod wrth gyflawni ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu* ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig yw sicrhau ei bod yn gwbl integredig yn y fframweithiau sy'n arwain datblygiadau yng Nghymru, ac yn sail iddynt.

Wrth bennu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu yn genedlaethol, bydd rhaid i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fod yn unol â pholisi Rheoli Adnoddau Naturiol wrth arwain cyfleoedd datblygu priodol, a dangos yr angen am integreiddio ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae rhaglen wedi cael ei sefydlu i arwain y gwaith hwn, gan gynnwys Bil yr Amgylchedd a phrosiectau polisi cysylltiedig, a fydd yn canolbwyntio ar reolaeth integredig ar adnoddau naturiol i sicrhau canlyniadau tymor hir gwell i Gymru.

***Argymhelliad 5.*** *Argymhellodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad y dylid adolygu rôl a swyddogaeth Cynllun Gofodol Cymru. Mae angen datblygu hyn ochr yn ochr â gwaith ar gynllunio adnoddau naturiol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Fel argymhelliad 4 uchod.

***Argymhelliad 6***. *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Panel Sector Ynni a'r Amgylchedd yn cynrychioli pob math o ynni adnewyddadwy yn y dyfodol, gan gynnwys ynni Morol, a dylai barhau i ddefnyddio ei arbenigedd i lywio polisïau a mentrau yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Panel Sector Preifat Ynni a'r Amgylchedd yn cynnig safbwyntiau, gwybodaeth a phrofiad er mwyn rhoi cyngor ar gyfer ein dull gweithredu. Mae ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni Morol, yn un o'r pum thema blaenoriaeth a nodir ganddynt.

Mae cynrychiolaeth dda o brofiad yn y sector ynni adnewyddadwy ar y Panel. Kevin McCullough, Cadeirydd Panel y Sector yw Prif Swyddog Gweithredol RWE npower. Mae cynllunio, adeiladu a gweithredu cyfleusterau sy'n cynhyrchu pŵer o ynni adnewyddadwy yn rhan greiddiol o fusnes y cwmni, sy'n cynnwys nifer o ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr, a chynlluniau ynni dŵr.

Mae cwmni David Williams, Eco2 Ltd, yn arbenigo mewn sefydlu, datblygu, ariannu a gweithredu prosiectau ynni adnewyddadwy hyd a lled y DU ac Ewrop, gan gynnwys cefnogi Tidal Energy Limited yn Sir Benfro i ddatblygu DeltaStream – technoleg arloesol a ddefnyddir i gynhyrchu pŵer trydanol gan ddefnyddio adnoddau llif y llanw.

Gerry Jewson yw Cadeirydd a Phrif Weithredwr West Coast Energy Group, un o'r datblygwyr ynni adnewyddadwy annibynnol mwyaf blaengar yn y DU.

Mae Alan Proctor wedi bod mewn amrywiaeth o swyddi gweithredol ac anweithredol yn y sector cyhoeddus a phreifat. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i ynni adnewyddadwy yw ei gyfnod fel Cadeirydd Rhead International. Mae rhan sylweddol o'r busnes yn canolbwyntio ar adeiladu prosiectau ynni adnewyddadwy.

Mae John Idris Jones wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr y Rhaglen Ynys Ynni.

Ac mae Nigel Annett wedi bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru Welsh Water er 2005.

***Argymhelliad 7.*** *Dylai Llywodraeth Cymru drefnu ac ariannu rhaglen i wella'r lefel o ymgysylltu â'r cyhoedd, o rymuso'r cyhoedd ac o drafodaeth wleidyddol am dechnolegau adnewyddadwy.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae'r ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei ddatblygu gyda Bwrdd Rhaglenni Ynni Cymru yn ystyried cynnig ym mis Chwefror. Mae'r dull yn cael ei fireinio yn awr a bydd yn cael ei anfon ymlaen at y Gweinidogion ar gyfer ei ystyried a'i gymeradwyo cyn ei weithredu.

***Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hachos dros ddatganoli ymhellach bwerau cydsynio ynni a rhoi cymhellion ariannol.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae achos Llywodraeth Cymru dros ddatganoli pellach ar bwerau cydsynio ynni a rhoi cymhellion ariannol, fel y cyflwynwyd i Lywodraeth y DU, wedi cael ei gyhoeddi ar y Rhyngrwyd.

***Argymhelliad 9.*** *Fel rhan o'r achos hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno proses lle mae Cyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio yn parhau i ystyried prosiectau seilwaith ynni mawr yng Nghymru ond, yn y dyfodol, yn gwneud ei hargymhellion terfynol i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i Weinidogion y DU.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Yn ddiweddar ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol yn Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU gan ddatgan mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am bob mathau o ddatblygiadau ynni (ac eithrio ynni niwclear) a'r seilwaith ynni cysylltiedig yng Nghymru. Roedd y llythyr yn cynnwys cyfeiriad at argymhellion y Pwyllgor ac yn cynghori y dylai unrhyw ddatblygiad cysylltiedig gael ei ystyried ochr yn ochr â'r prif brosiect gan y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol o dan y trefniadau newydd hyn.

***Argymhelliad 10. Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod mecanweithiau'r farchnad a gynigir gan Ddiwygiad Llywodraeth y DU i'r Farchnad Drydan yn cael eu rhoi ar waith yn fwy tryloyw ac yn gynt a sicrhau sefydlogrwydd yn y tymor hirach drwy gadarnhau'r newidiadau i'r gyfundrefn Tystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy y tu hwnt i 2017 cyn gynted â phosibl.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynllunio a gweithredu Diwygiad y Farchnad Drydan. Rydym yn parhau'n bryderus am nifer o agweddau ar y Bil Ynni, yn enwedig cymhlethdod y trefniadau a'r goblygiadau i fuddsoddiadau posibl yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl ymgynghori ffurfiol yn natblygiad a chynllun Diwygiad y Farchnad Drydan wrth symud ymlaen.
Mae disgwyl newidiadau adolygiad bandiau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru a Lloegr yn fuan ac mae'n swyddogion yn parhau i atgoffa swyddogion y DU o bwysigrwydd chwarae teg ledled y DU gyfan er mwyn sicrhau hyder buddsoddwyr yng Nghymru.

***Argymhelliad 11.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i ganfod a sicrhau datblygwr amgen i ddatblygu cynigion ar gyfer adweithydd niwclear newydd yn Wylfa B.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae uwch swyddogion o Lywodraeth Cymru'n trafod yn rheolaidd gyda Hitachi a Pŵer Niwclear Horizon er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael y manteision economaidd gorau posibl o'r cyfleoedd arwyddocaol a geir yn Wylfa B.

***Argymhelliad 12.*** *Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog gwell cymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy o dan 50 megawat ar draws yr ystod lawn o fathau o dechnoleg a chynnwys cymaint o gynlluniau yn y gymuned â phosibl.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer cynllunio pob math o ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn strategol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gydsynio prosiectau o dan 50 megawat. Yn 2011, ysgrifennodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy at yr holl awdurdodau lleol i gynnig cyfeiriad i helpu i symleiddio'r system bresennol a chael dull mwy cyson o weithredu. Rydym wedi sicrhau bod cymorth ymarferol ac ariannol ar gael i helpu mentrau bychan a chanolig eu maint yng Nghymru i elwa o ynni adnewyddadwy.

Mae Ynni'r Fro wedi ymateb i fwy na 190 o ddatganiadau'n Mynegi Diddordeb gan gymunedau yng Nghymru er 2010. Mae'r rhwydwaith o Swyddogion Datblygu Technegol lleol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda 194 o fentrau cymunedol yn y rhanbarthau cydgyfeirio a chystadleurwydd. Mae 68 o gymunedau wedi datblygu eu darpar-brosiectau, gyda chefnogaeth grantiau 'paratoi', i helpu gydag asesiadau a phenderfyniadau amgylcheddol cysylltiedig â hyfywedd prosiectau.

Drwy raglen ddatblygu ei chadwyn gyflenwi, mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi parhau i gyflwyno rhaglen i gefnogi'r gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Gyda ffocws penodol ar fentrau bychain a chanolig eu maint, mae'r rhaglen hon yn darparu cyngor i fusnesau ar y cyfleoedd sydd ar gael ac mae'n darparu cefnogaeth i ennill ardystiad o dan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu, sy'n ofynnol er mwyn gweithredu yn y farchnad i osod technolegau ynni adnewyddadwy.

Er mwyn mynd ati i annog cymysgedd well o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, yn gyntaf mae'n rhaid i ni ddeall mwy am ble rydym ni nawr o

ran y mathau o dechnoleg a maint yr ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael astudiaeth i amcangyfrif llinell sylfaen osodiadau ynni adnewyddadwy presennol yng Nghymru fesul Awdurdod Lleol. Bydd y prosiect yn llunio llinell sylfaen sy'n cynnwys yr holl dechnoleg adnewyddadwy ar gyfer pob maint o gynhyrchu megawat.

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn sail i Fwrdd y Rhaglen Ynni ac i ddatblygu'r polisi ynni. Bydd yn helpu i gynnig cyfarwyddyd i sicrhau cymaint â phosibl o fanteision economaidd, cymunedol (cymdeithasol) ac amgylcheddol o ddatblygu cynlluniau ynni carbon isel a gweithgareddau cysylltiedig yng Nghymru.

***Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynigion yn yr adolygiad o Dystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 5 Tystysgrif i brosiectau ynni tonnau ac ynni llanw'r môr yng Nghymru yn cael eu gweithredu, er mwyn i Gymru gael yr un chwarae teg â'r Alban.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae disgwyl newidiadau adolygiad bandiau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru a Lloegr yn fuan ac mae'n swyddogion yn parhau i atgoffa swyddogion y DU o bwysigrwydd chwarae teg ledled y DU gyfan er mwyn sicrhau hyder buddsoddwyr yng Nghymru.

***Argymhelliad 14.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Banel y Sector Ynni a'r Amgylchedd ei chynghori ar y ffordd orau o fanteisio ar gyfle'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi darpariaeth seilwaith strategol ar gyfer y sector ynni yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**
Mae Panel y Sector Ynni a'r Amgylchedd yn ystyried yr holl gynlluniau is-sector (gan gynnwys Biomas, Gwynt a Morol) a'u hanghenion am seilwaith strategol. Bydd y cynigion yn cael eu defnyddio fel sail i Gronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol ble maent yn cael eu cefnogi gan Banel y Sector.

***Argymhelliad 15.*** *Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gefnogi arloesedd, ymchwil a datblygiad, yn enwedig yn niwydiant newydd ynni tonnau/llanw a dylai roi rhagor o anogaeth i gydweithio rhyngwladol a byd-*

*eang ym meysydd ymchwil a gweithgarwch arloesi sy'n ymwneud â thechnolegau ynni adnewyddadwy newydd.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Cynrychiolir Llywodraeth Cymru ar y Grŵp Cydlynu Arloesedd Carbon Isel sydd wedi comisiynu prosiect Asesu Anghenion Arloesedd Technoleg i sicrhau effaith orau posibl arian y sector cyhoeddus yn y DU ar gyfer technolegau carbon isel.  Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y canfyddiadau a sut gellid eu gweithredu yng Nghymru.  Byddwn eisiau cydweithio ag eraill ble ceir achos cryf dros greu gweithgarwch arloesi blaenllaw.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu datblygwyr dyfais gyda chyllid ymchwil a datblygu at gam ble bydd disgwyl defnydd o ddyfeisiadau arddangos tua diwedd 2013.

***Argymhelliad 16.*** *Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n fanwl cyn diwedd 2012 sut bydd yr Ardaloedd Menter ynni yn gweithredu a'r cymhellion ariannol a chynllunio a fydd yn cael eu cynnig.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Agorodd Cynllun Trethi Busnes gwerth £20 miliwn ym mis Ionawr i ddarparu cefnogaeth ariannol gydag atebolrwydd trethi busnes i fusnesau bychain a chanolig eu maint yn y saith Ardal Fenter yng Nghymru. Bydd y cynllun hwn yn para am bedair blwyddyn ariannol rhwng 2012/13 a 2015/16 a bydd yn targedu'r gefnogaeth at roi hwb i greu swyddi a sicrhau twf mewn busnesau. Mae'r alwad gyntaf am geisiadau wedi cau yn awr ond bydd yn cael ei gweithredu eto'n fuan.

***Argymhelliad 17.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi ar gyfer y Fargen Werdd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da yn Lloegr fel esiampl.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Ar ôl cyflwyno nifer o ddigwyddiadau gan weithio'n agos â rhanddeiliaid, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi gweithio'n agos ag awdurdodau lleol i'w helpu i ystyried yr opsiynau a'r cyfleoedd sy'n bodoli o dan y Fargen Werdd.

Yn seiliedig ar nifer o enghreifftiau o ymarfer sy'n dod i'r amlwg, mae'r gwaith hwn wedi galluogi i nifer bychan o awdurdodau lleol yng Nghymru weithio ar ddatblygu achosion busnes enghreifftiol y Fargen Werdd, gan edrych ar dri model posibl gyda lefelau amrywiol o ymrwymiad a chyfranogiad. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, bydd yr wybodaeth o'r modelau hyn yn cael ei rhannu'n eang gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch a ydynt eisiau cymryd rhan ym marchnad y Fargen Werdd a pha ddull o weithredu maent am ei ddewis.

Rydym hefyd wedi cynnig rhywfaint o gymorth grant i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru i ddatblygu prosiectau sy'n canolbwyntio ar Gartrefi Arddangos y Fargen Werdd, ac rydym wedi neilltuo adnoddau ychwanegol i gyllido 12 prosiect ledled Cymru. Y bwriad yw hybu'r Fargen Werdd ymhlith y landlordiaid, gosodwyr a chymunedau, ond bydd hefyd yn denu cyllid ECO cynnar i Gymru.

***Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i fesur effaith economaidd ffermydd gwynt a'r seilwaith grid cysylltiedig ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n comisiynu ymchwil ar effaith economaidd ffermydd gwynt a'r seilwaith grid cysylltiedig ar y diwydiant twristiaeth fel rhan o'i rhaglen ymchwil yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn dechrau'r haf.

***Argymhelliad 19. Er mwyn ategu Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a'r rhaglen ynni gysylltiedig, dylai Llywodraeth Cymru lunio Cynllun Gweithredu manwl erbyn diwedd 2012 gyda manylion y camau penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac eraill i gyflawni'r targedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.***

***Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol sy'n nodi cynnydd tuag at dargedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy a dylai hyn gynnwys esboniad o'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r targedau hyn y gallai eu gwneud.***

*Argymhelliad 21. Fel rhan o'r cynllun gweithredu manwl (gweler argymhelliad 19) uchod, dylai Llywodraeth Cymru gyflawni'r canlynol:*
*– darparu gwybodaeth gadarn am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy cyfredol ac arfaethedig yng Nghymru;*
*– adolygu targed 2025 ar gyfer ynni tonnau/llanwol;*
*– egluro'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y targed 300 megawat ar gyfer*

*datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir rhwng 5 a 25 megawat y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sut bydd hyn yn cael ei fonitro;*
*– ystyried yr angen am darged tymor hirach ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr y tu hwnt i 2015/16.*

**Ymateb i argymhellion 19, 20 a 21: Derbyn yn Rhannol**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae cynlluniau gweithredu ar gyfer ein blaenoriaethau'n cael eu paratoi a byddant yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Mae ein gwaith cynllunio'n cynnwys datgan mesurau priodol ar gyfer sut mae ein hymyriadau'n cyflawni manteision cynaliadwy i Gymru. Mae llinell sylfaen o ddata ystadegol yn cael ei pharatoi i helpu gyda'r ymdrech hon, gyda data hanesyddol am ddefnyddio a chynhyrchu ynni'n cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror. Hefyd, mae gwaith ymchwil sy'n edrych ar y defnydd presennol o dechnolegau adnewyddadwy ar lefel yr awdurdodau lleol wedi cael ei gomisiynu a bydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru yn yr haf. Yn ychwanegol at hynny, mae astudiaeth i ddeall y lluosogwyr economaidd yn y sector ynni wedi cael ei chomisiynu a bydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ym misoedd Ebrill/Mai.

***Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu cyflwyno system sy'n integreiddio'r systemau cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol yn well yng Nghymru cyn cyflwyno system newydd yn llawn ym mis Ebrill 2013. Dylai system o'r fath fod yn ddigon hyblyg fel bod peth dewis o ran y llwybr trwyddedu sydd fwyaf addas ar gyfer pob prosiect.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym wedi ymrwymo i symleiddio'r systemau cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol ar y cyfle cyntaf, boed hynny drwy ddulliau cyflwyno sylfaenol, eilaidd neu arall. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod y berthynas rhwng y systemau hyn yn cael ei rheoli mewn modd mor effeithiol â phosibl.

Mae nifer o ddarnau unigol o dystiolaeth wedi cael eu casglu a byddant yn sail i'r Papur Gwyn ar Gynllunio a'r Bil dilynol. Byddwn yn datgan ein gweledigaeth ar gyfer system gynllunio well yn nes ymlaen eleni.

***Argymhelliad 23.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithredu gwelliannau i'r systemau cynllunio a chydsynio cyfredol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 50 megawat sy'n deillio o adroddiad Hyder, nad oes angen deddfwriaeth newydd ar eu cyfer, cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Ebrill 2013 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau ymchwil Hyder fel rhan o gyfres o dystiolaeth ar gyfer y Papur Gwyn ar Gynllunio. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr astudiaeth hon yn ymwneud â'r Papur Gwyn a'r Bil arfaethedig ar Gynllunio a byddant yn cael sylw fel rhan o'r broses hon. Yn y cyfamser, cyn cyflwyno deddfwriaeth, byddwn yn edrych ar gyfleoedd i wella'r broses ymgynghori. Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i hybu arferion gorau er mwyn lleihau'r oedi posibl gyda'r broses gynllunio.

Bydd y Bil Diwygio Cynllunio arfaethedig yn ceisio gwella'r broses gydsynio ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, yr ydym yn gyfrifol amdanynt, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni ein dyheadau ynni a newid yn yr hinsawdd ar ynni adnewyddadwy.

***Argymhelliad 24.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu siop un-stop ar gyfer cyngor i fusnesau a grwpiau cymunedol i'w helpu drwy'r prosesau cynllunio/cydsynio ynni adnewyddadwy. Gallai'r tîm ynni adnewyddadwy canolog (gweler argymhelliad 31) ddarparu hyn.*

**Ymateb Wedi'i Adolygu: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Lansiwyd Ynni'r Fro ym mis Ionawr 2010 ac mae'n rhaglen a gyllidir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gyda'r nod o hybu cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Mae Ynni'r Fro yn hybu twf busnes a chyfleoedd busnes newydd drwy alluogi creu ac ehangu mentrau cymdeithasol cynaliadwy.

Mae Ynni'r Fro wedi ymateb i fwy na 190 o ddatganiadau'n Mynegi Diddordeb gan gymunedau yng Nghymru er 2010. Mae'r rhwydwaith o Swyddogion Datblygu Technegol lleol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda 194 o fentrau cymunedol yn y rhanbarthau cydgyfeirio a chystadleurwydd. Mae 68 o gymunedau wedi datblygu eu darpar-brosiectau, gyda chefnogaeth grantiau 'paratoi', i helpu gydag asesiadau a phenderfyniadau amgylcheddol cysylltiedig â hyfywedd prosiectau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad canol tymor o raglen Ynni'r Fro yn awr, i sefydlu pa mor dda mae'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ar hyn o bryd, a beth fydd yr anghenion yn y dyfodol o bosibl. Bydd y gwaith hwn o gymorth fel sail i welliannau i'r rhaglen bresennol ac i gynllunio rhaglen i olynu.

Hefyd mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal ymarfer cwmpasu i benderfynu ar gynnwys yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth y bydd yn eu darparu yn y dyfodol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys y sector busnes. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn ym mis Mawrth 2013, bydd gweithgarwch yn cael ei gyflwyno i osod trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer cyngor a chefnogaeth, a fydd yn

dechrau ar ddechrau blwyddyn ariannol 2014-15. Bydd y casgliad o wasanaethau a gynigir yn y dyfodol yn ffurfio cyswllt clir ar draws mentrau a chefnogaeth debyg yng Nghymru a'r tirlun gwybodaeth a chyngor sy'n newid ar lefel y DU, ac yn rhoi sylw i fylchau a lleihau'r potensial am ddyblygu darpariaeth.

***Argymhelliad 25.*** *Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau pellach wedi'u targedu ar sut i asesu effaith gronnol ffermydd gwynt ar y tir yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol (mae paragraff 12.8.2 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y bydd yn ystyried llunio canllawiau pellach wedi'u targedu).*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 eisoes yn cynnwys canllawiau ar y mater hwn, ond byddwn yn pwyso a mesur a oes angen canllawiau pellach.
Ar hyn o bryd rydym yn cyfrannu at waith a gomisiynwyd gan y Sefydliad Acwsteg mewn perthynas â sŵn tyrbinau gwynt, a fydd yn helpu gydag ystyried effeithiau cronnol.

***Argymhelliad 26.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ail gyfnod ymchwil Hyder yn ystyried ceisiadau ynni na chafwyd penderfyniad yn eu cylch eto, ynghyd â'r rhai y penderfynwyd yn eu cylch eisoes.*

**Ymateb: Gwrthod**

Pwrpas ymchwil Hyder yw gwerthuso a nodi rhwystrau yn y broses bresennol ar gyfer cynlluniau sydd wedi mynd drwy'r broses gynllunio – adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r cyflwyno i'r penderfynu, a'u rhoi ar waith yn y pen draw. Mae gan Weinidogion Cymru rôl statudol yn y broses gynllunio, ac mae posibilrwydd y gallai apêl cynllunio ddod gerbron Gweinidogion Cymru rywbryd. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn briodol bod yr astudiaethau achos yn defnyddio ceisiadau cynllunio byw. Rydym yn hyderus mai'r materion a'r rhwystrau a nodwyd mewn cynlluniau presennol yw'r rhai hynny y mae cynlluniau byw yn eu hwynebu yng Nghymru.

***Argymhelliad 27.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gofyniad fel mai un datganiad amgylcheddol sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, sy’n dod i rym ar 1af Ebrill 2013, yn darparu dull integredig o weithio wrth gyflwyno cyngor ynghylch datblygiadau a phrosiectau seilwaith. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i wella effeithlonrwydd y broses ganiatâd ategol i gefnogi prosiectau seilwaith strategol.

***Argymhelliad 28.*** *Fel rhan o amlinellu’r achos dros ddatganoli pellach (gweler argymhelliad 8), dylai Llywodraeth Cymru gynnig bod unrhyw ddatblygiad cysylltiedig hefyd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â’r prif brosiect gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol o dan unrhyw drefniadau newydd.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Gweler yr ymateb i argymhelliad 9.

***Argymhelliad 29.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn ei adroddiad ar yr achos busnes dros Un Corff Amgylcheddol.*

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae’r argymhelliad hwn yn cyfeirio at ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i’r achos busnes ar gyfer Un Corff Amgylcheddol.

Gwnaed 4 argymhelliad yn eu hadroddiad, dyddiedig 27 Ebrill 2012, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:
Argymhelliad 1 - Derbyn
Argymhelliad 2 - Gwrthod
Argymhelliad 3 - Derbyn
Argymhelliad 4 - Derbyn

Rhoddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 1 Mehefin 2012 a dyma yw’r ymateb i’r argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 30.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda’r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn parhau i fod yn gymwys ar ôl ei ddisodli gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae'r uwch swyddogion yn trafod gyda'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio ynghylch y cynnig i ddiweddaru'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gyda'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a bydd yn ceisio cytuno ar femorandwm adolygedig yn nes ymlaen eleni.

***Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm canolog gydag arbenigedd penodol mewn technolegau ynni adnewyddadwy. Dylai'r tîm hwn fod ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i'w cynorthwyo i ymdrin â cheisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau Deddf Cynllunio 2008, yn enwedig er mwyn helpu'r awdurdodau hynny sy'n ymdrin â cheisiadau sy'n ymwneud â thechnolegau newydd.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym yn cydnabod yr angen am ddarparu cymorth i awdurdodau cynllunio lleol a darparu cefnogaeth ariannol uniongyrchol o ran cymorth technegol ar gyfer prosiectau mawr, lle nad ydynt yn derbyn unrhyw incwm ffi. Hefyd, rydym yn ystyried goblygiadau sefydlu Bwrdd Cynghori a Gwella ar gyfer y maes Cynllunio fel rhan o'r gwelliannau parhaus i'r system gynllunio. Mae arnom angen ystyried yn fanylach a fyddai tîm canolog o arbenigwyr wedi'u neilltuo yn fwy effeithiol na chael rhestr o arbenigwyr y gellid eu galw yn ôl y gofyn.

***Argymhelliad 32.*** *Hyd nes y sefydlir y tîm canolog, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth grant i awdurdodau cynllunio lleol i'w cynorthwyo i brynu arbenigedd technegol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Yn 2010/11 fe wnaethom gyflwyno cynllun peilot i ddarparu cymorth ariannol i Awdurdodau Cynllunio Lleol i gaffael yr adnoddau a'r sgiliau angenrheidiol i benderfynu ar geisiadau cynllunio cymhleth. Galluogodd y cynllun yr Awdurdodau hyn i ymgymryd â gwaith technegol fel sail i benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU am ffermydd gwynt mawr (50MW+) yn Ardaloedd Chwilio Strategol Nodyn Cyngor Technegol 8. Ers ei gyflwyno yn 2010-11, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido cynlluniau gwerth cyfanswm o £152,000 mewn meysydd fel datblygiadau gwastraff ac ynni adnewyddadwy.

***Argymhelliad 33.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog datblygiad gwaith rhanbarthol a rhannu arbenigedd.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Drwy ein Cronfa Gwella Cynllunio, rydym yn annog awdurdodau cynllunio lleol i weithio gydag awdurdodau cyfagos ar hwyluso ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd. Mae polisïau a chanllawiau cynllunio eisoes yn annog hyn. Byddwn yn adeiladu ar yr argymhelliad hwn ac yn ei ddatblygu drwy'r Papur Gwyn ar Gynllunio.

***Argymhelliad 34.*** *Fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o'r system gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno terfyn ar ffioedd ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned.*

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'n rhaid i ni wrthod yr argymhelliad hwn am resymau technegol. Rydym yn rhagweld y bydd yn peri anawsterau i awdurdodau lleol o ran penderfynu beth a olygir gan gynlluniau a arweinir gan y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn hwyluso prosiectau a arweinir gan y gymuned drwy gynllun Ynni'r Fro ac mae cymorth ariannol hael, y gellir ei ddefnyddio i dalu ffioedd cynllunio, eisoes ar gael i brosiectau a arweinir gan y gymuned. Hefyd, pan wneir ceisiadau gan neu ar ran cynghorau plwyf, tref a chymuned o dan y darpariaethau presennol, mae'r ffi cynllunio yn hanner y ffi arferol ar gyfer cais. Felly, rydym yn credu bod cymorth eisoes ar gael drwy lwybrau eraill.

***Argymhelliad 35.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog defnydd pellach o gytundebau perfformiad cynllunio gyda datblygwyr fel ffordd amgen o ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer ymdrin â phrosiectau ynni mawr (ee: fel y cytunwyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Pŵer Niwclear Horizon).*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Gall Cytundebau Perfformiad Cynllunio fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod ceisiadau cynllunio'n cael eu prosesu'n brydlon, ac rydym yn annog pobl i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae'r cytundebau'n cael eu llunio rhwng awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr, a rôl gyfyngedig iawn sydd gan Lywodraeth Cymru yn y contractau a gytunir.

***Argymhelliad 36.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm ynni wedi'i neilltuo o fewn y Corff Adnoddau Naturiol a sicrhau bod gan y tîm hwn ddigon o adnoddau a ffocws i ymdrin â'i rôl ddeuol fel ymgynghorai statudol a chorff trwyddedu amgylcheddol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydlu tîm i ddatgan cyfleoedd menter, gan gynnwys y rhai ar gyfer ynni adnewyddadwy, fel rhan o'i gylch gwaith.

Trwy wneud hynny, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod y swyddogaethau amrywiol y bydd yn eu chwarae efallai mewn unrhyw ddatblygiadau o'r fath yn cael eu datgan ac yn cael sylw ar wahân, yn ôl yr angen.

***Argymhelliad 37. Fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o'r system gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gall fynd ati'n gyflym i ddarparu fframwaith polisi cynllunio lleol neu ranbarthol cyson ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy neu ynni arall y gall cymunedau lleol ei ddeall ac ymgysylltu'n gyson ag ef.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Bydd y Papur Gwyn ar Gynllunio yn rhoi sylw i'r mater hwn.

***Argymhelliad 38.*** *Yn dilyn ei hymgynghoriad diweddar ar "ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy", dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru erbyn diwedd 2012 er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar bolisïau cynllunio cenedlaethol o dan amgylchiadau lle nad oes cynlluniau datblygu cyfoes ar waith.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae argraffiad newydd o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n cryfhau ac yn egluro'r rhagdybiaeth o blaid datblygiadau cynaliadwy yn y system gynllunio.  Mae hyn yn cadarnhau'r angen am gynlluniau datblygu sydd wedi cael eu mabwysiadu, ac mae'n cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi llai o bwyslais ar bolisïau sydd wedi dyddio neu wedi cael eu disodli a mwy o bwyslais ar ystyriaethau perthnasol eraill fel y polisi cynllunio cenedlaethol.

***Argymhelliad 39.*** *Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru annog grwpiau unigol neu ranbarthol o awdurdodau cynllunio lleol i roi blaenoriaeth i baratoi Asesiadau o Ynni Adnewyddadwy yn seiliedig ar ganllawiau ymarfer Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os yw eu Cynlluniau Datblygu Lleol eisoes wedi'u datblygu i raddau helaeth.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Yn 2011-12, fe wnaethom roi cyfanswm o £140K i 11 Awdurdod Cynllunio Lleol i gyflawni asesiadau ynni adnewyddadwy lleol yn rhannol neu'n llawn yn unol â'r Pecyn Cymorth ar gyfer Ynni Adnewyddadwy. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Gynlluniau Datblygu Lleol newydd neu'n cael eu cynnwys fel rhan o'r broses o adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi cael eu mabwysiadu yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried sut y gall y gefnogaeth hon barhau fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r system gynllunio yng Nghymru.

***Argymhelliad 40.*** *Lle nad oes cynllun datblygu cyfoes, dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ffurfiol, ar ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd, gan adeiladu ar eu Hasesiadau o Ynni Adnewyddadwy.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym yn derbyn bod angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gael arweiniad polisi cyfredol. Fodd bynnag, mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn atodol i gynlluniau datblygu ac ni fyddai'n bosibl creu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny heb Gynllun Datblygu. Ein barn gadarn ni yw bod rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol, a bod rhaid i'r rhain roi sylw i faterion sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Byddwn yn parhau i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

***Argymhelliad 41.*** *Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd y Cynllun Adnoddau Naturiol arfaethedig yn cael ei integreiddio gydag unrhyw newidiadau a wneir i'r system cynllun datblygu a beth yw'r cysylltiad rhwng y cynllun newydd hwn a Chynllun Gofodol Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Gweler y sefyllfa ddiweddaraf am argymhelliad 4.

***Argymhelliad 42. Ar ôl cwblhau'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i drawsnewid yn llwyr y system gynllunio yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen iddi ddiwygio ei pholisïau cynllunio ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.***
***Wrth bwyso a mesur hyn, dylai ystyried y canlynol:***
***– canlyniad yr ôl-groniad cyfredol o geisiadau ffermydd gwynt ar y tir nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud yn eu cylch;***

***– y cynnydd sydd wedi'i wneud yn gweithredu pob math arall o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cylch cyfredol o gynigion am ffermydd gwynt ar y môr;***
***– y Cynllun Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Yn 2011, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad i'n polisi Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru. Bydd nifer o'r newidiadau a ddaw i'r amlwg drwy'r Papur Gwyn ar Gynllunio, a'r Bil yn y pen draw, yn ceisio gwella'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Byddwn yn parhau i adolygu Polisi Cynllunio Cymru i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

***Argymhelliad 43.*** *Fel rhan o adroddiad monitro blynyddol sy'n nodi cynnydd tuag at y targedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy (gweler argymhelliad 20), dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad manwl o gynnydd yn y gwaith o ddatblygu ynni gwynt ar y tir ar gyfer pob Ardal Chwilio Strategol, o gymharu â'u lefelau capasiti uchaf.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Darparodd astudiaeth Hyder sylfaen o dystiolaeth. Cyhoeddir y diweddariad nesaf ar ddatblygu ynni gwynt yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol ym mis Ebrill.

***Argymhelliad 44. Fel rhan o weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i ryddhau'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir (gweler argymhelliad 2), dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio'n benodol ar ddatrys y materion trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfryw ddatblygiadau.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym wedi gweithio'n agos â Renewables UK ar baratoi eu Cynllun Rheoli Traffig strategol, sy'n cynnwys llwybr mynediad ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin o ddociau Ellesmere Port i Ardaloedd Chwilio Strategol B a C. Mae Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd wedi derbyn y Cynllun Rheoli Traffig strategol mewn perthynas â'r rhwydwaith o gefnffyrdd yng Nghymru.

Rydym yn gweithio'n agos â dau ddatblygwr ar baratoi Cynllun Rheoli Traffig Strategol sy'n rhoi sylw i fynediad o ddociau Abertawe i Ardal Chwilio

Strategol D a'r ardal gyfagos.  Rydym hefyd yn gweithio â datblygwyr unigol ar baratoi cynlluniau rheoli traffig i Ardal Chwilio Strategol C drwy gyfrwng llwybrau eraill yn lle’r rhai yn y Cynllun Rheoli Traffig strategol, a hefyd i Ardal Chwilio Strategol A.

***Argymhelliad 45. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu a darparu cymorth i randdeiliaid fel y gallant fynd ati ar fyrder i gyhoeddi’r cynllun strategol hirddisgwyliedig ar reoli trafnidiaeth ar gyfer canolbarth Cymru, cyn gweithredu cynlluniau tebyg ar gyfer pob un o’r Ardaloedd Chwilio Strategol sy’n weddill. Dylai sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â’r holl gymunedau hynny sy’n debygol o gael eu heffeithio gan y cynlluniau hyn.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Y datblygwyr sy’n gyfrifol am ddatblygu Cynlluniau Rheoli Traffig.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio’n agos â’r datblygwyr i ddatrys y materion sy’n gysylltiedig â’r cynlluniau hynny.

***Argymhelliad 46.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth asesiad cyflym o effaith economaidd symudiadau trafnidiaeth sy’n gysylltiedig â datblygiadau ffermydd gwynt yng nghanolbarth Cymru, fel yr argymhellwyd yn wreiddiol gan Capita Symonds. Dylid cwblhau’r astudiaeth hon erbyn mis Ebrill 2013 fan bellaf.*

**Ymateb: Gwrthod**

Mae’r argymhelliad yn ymwneud ag astudiaeth gan gontractwr allanol i Lywodraeth Cymru a gwblhawyd yn 2008. Ers i’r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith, yn enwedig yn rhinwedd ei rôl ymgynghorol ar Gynlluniau Rheoli Trafnidiaeth Strategol, i leihau effeithiau posibl symudiadau trafnidiaeth sy’n gysylltiedig â datblygiadau ffermydd gwynt.  Ar hyn o bryd, mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn brysur yn gweithio gyda’r diwydiant ffermydd gwynt a’r holl gyrff priodol sy’n gysylltiedig â hwyluso a rheoleiddio’r defnydd a wneir o briffyrdd (yr Heddlu a Chynghorau Sir yng Nghymru a Lloegr, yr Asiantaeth Priffyrdd, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, a Llywodraeth Cymru ei hun fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Cefnffyrdd yng Nghymru) er mwyn gallu dod â chydrannau tyrbinau gwynt yn ddiogel i safleoedd o fewn yr amserlenni priodol ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt, a hynny gan leihau’r effaith ar gymunedau, busnesau, defnyddwyr eraill y ffordd a’r amgylchedd.  Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi’r cyfrifoldeb ar y diwydiant ffermydd gwynt am weithio ar y cyd gyda’r holl bartïon i ddatblygu cynlluniau sy’n tarfu cyn lleied â phosibl ar economïau a chymunedau lleol, ac mae wedi pwysleisio pwysigrwydd cael cynllun trafnidiaeth cadarn fel rhan allweddol o unrhyw gais cynllunio.

Mae treialon wedi cael eu cynnal ar nifer o lwybrau, ac mae swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau priffyrdd lleol wedi bod yn eu harsylwi. Bach iawn oedd yr effeithiau ar symudiadau trafnidiaeth yn ehangach, ac mae'r diwydiant ffermydd gwynt yn ceisio lleihau hyn.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â'r Grid Cenedlaethol ac Ymgymerwyr Statudol eraill i hwyluso'r gwaith o ddarparu'r grid pŵer cysylltiedig.

Yn wyneb y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud ar y pwnc hwn a'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi ei fabwysiadu, nid ydym yn credu bod angen rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.

***Argymhelliad 47.*** *Yn dilyn yr astudiaeth gan Capita Symonds a awgrymodd y gallai'r rheilffordd gyfrannu at y gwaith o symud rhai o'r cydrannau tyrbin, yn enwedig i ganolbarth Cymru, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Network Rail a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd i gludo cydrannau ffermydd gwynt yn cael ei integreiddio i gynlluniau trafnidiaeth datblygwyr lle bo hynny'n briodol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'r diwydiant rheilffyrdd. Y cyngor a gafwyd ganddo yw y gall y cyfyngiadau ar y rhwydwaith rheilffyrdd atal cludo llawer o'r cydrannau mwy gan ddefnyddio'r dull hwn, oni bai fod gwelliannau mawr yn cael eu gwneud. Gallai hyn gynnwys codi uchder nifer o'r pontydd ac adleoli ategweithiau'r pontydd a chyfarpar rheilffordd i ddarparu digon o le. Byddai trafnidiaeth rheilffordd angen stoc parhaus pwrpasol, ac efallai nad yw rhai o'r rhain ar gael yn y DU ar hyn o bryd. Mae'r seilwaith rheilffordd presennol yn anghysbell yn gyffredinol oddi wrth yr Ardaloedd Chwilio Strategol, ac felly byddai angen trafnidiaeth ffordd rhwng pen y rheilffordd a'r Ardaloedd Chwilio Strategol, a gallai hynny brofi'n aneconomaidd. Hefyd byddai angen darparu seilwaith rheilffordd newydd ar ffurf cyfleusterau seidin/trin. Yn y cyswllt hwn, efallai na fydd trafnidiaeth rheilffordd yn ymarferol mewn sawl achos.

Byddwn yn parhau i dynnu sylw at opsiynau cludo nwyddau ar y rheilffyrdd lle bo hynny'n briodol, wrth drafod Cynlluniau Rheoli Traffig â datblygwyr.

***Argymhelliad 48.*** *Fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r broses gynllunio a chydsynio ar gyfer datblygu ffermydd gwynt, dylai Llywodraeth Cymru rannu arferion da o ran ymdrin â materion trafnidiaeth ar ôl cydsynio drwy ddefnyddio amodau cynllunio priodol lle nad oes unrhyw faterion cronnol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym wedi rhannu arferion da gydag awdurdodau lleol ynghylch y gofynion ar gyfer cynlluniau rheoli traffig.  Rydym wedi cynghori bod awdurdodau lleol a hefyd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn cynnwys amodau ar unrhyw ganiatâd maent yn ei roi, sy'n cynnwys rheoli traffig.

***Argymhelliad 49. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am sicrwydd ar unwaith gan OFGEM bod y Grid Cenedlaethol yn cynnwys lefelau digonol o ddiogelu at y dyfodol yn ei gynlluniau ar gyfer atgyfnerthu'r grid ym mhob rhan o Gymru, er mwyn i'r grid allu ymdopi â natur cynyddol amrywiol a gwasgaredig cynhyrchu ynni.***

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae'r trafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac Ofgem yn parhau ynghylch profi atgyfnerthu'r grid yn y dyfodol ac mae'r cylch gorchwyl yn esblygu.

***Argymhelliad 50.*** *Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar yr angen am atgyfnerthu'r grid yn sylweddol yng nghanolbarth a gogledd Cymru, o ystyried y gwahaniaethau amlwg rhwng datganiadau'r llynedd ar lefelau capasiti'r Ardaloedd Chwilio Strategol a datganiadau mwy diweddar yn Ynni Cymru:  Newid Carbon Isel a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod seilwaith ynni modern, effeithlon a dibynadwy yn bwysig i'n busnesau a'n cymunedau, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy newydd, gan gynnwys ynni gwynt. Yn hollbwysig, fel Llywodraeth, rydym hefyd yn cefnogi rhoi terfynau ar lefel y datblygiadau ffermydd gwynt mewn ardaloedd penodol, yn ôl diffiniad Ardaloedd Chwilio Strategol Cymru a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 8 ar Ynni Adnewyddadwy.  Mae hyn yn wahanol i Loegr, lle **nad oes unrhyw** derfynau ar lefel datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Yn anffodus, nid yw'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith ynni mawr wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru, er gwaethaf sylwadau cyson i Lywodraeth y DU mai ni ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau Cymru. Mae'n dilyn y bydd 'dim terfynau' yn cael eu gorfodi ar Gymru, fel sydd yn Lloegr.

Gweinidogion Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar gynlluniau ffermydd gwynt mawr, yn ogystal â'r seilwaith grid cysylltiedig, ac yn anffodus nid ydynt wedi datgan y byddant yn parchu'r terfynau ar ddatblygiadau

ffermydd gwynt fel y'u hamlinellir ym mholisi Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru.

O ran seilwaith grid newydd, byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ei weld yn cael ei osod o dan ddaear. Heb ragfarn yn erbyn hyn, rydym wedi bod yn trafod gyda'r Grid Cenedlaethol, ac yn parhau i drafod, er mwyn lleddfu effaith weledol unrhyw wifrau cludo newydd posibl. Rydym yn credu y byddai effaith y seilwaith newydd arfaethedig yn llawer mwy pe na byddem wedi cynnal y trafodaethau hyn.

Os bydd Llywodraeth y DU yn caniatáu datblygiadau mawr sydd y tu hwnt i'n pŵer ni, byddem yn disgwyl gweld buddiannau sylweddol i'r cymunedau dan sylw.

***Argymhelliad 51.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grid Cenedlaethol a'r Gweithredwyr Rhwydwaith Ardal yn cael eu cynnwys yn y protocol ar gyfer buddion cymunedol (gweler argymhelliad 53), er mwyn sicrhau bod y cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan seilwaith grid newydd hefyd yn elwa o'r seilwaith cysylltiedig.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Ofgem wedi cadarnhau'r risg o fynd ar ôl cronfa les gymunedol ar gyfer y rhai a effeithir gan y seilwaith grid newydd. Pe bai'r dull hwn o weithredu'n cael ei fabwysiadu ledled y DU, mae'n hynod debygol y byddai defnyddwyr Cymru'n ysgwyddo baich anghyfartal. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar y Grid Cenedlaethol a'r Gweithredwyr Rhwydwaith Ardal i ddefnyddio cadwyni cyflenwi a gwasanaethau lleol os yn bosibl. Mae'r trafodaethau gyda datblygwyr ynni gwynt yn parhau ac yn cynnwys edrych ar sut mae datblygwyr yn ystyried cymunedau lleol i ddatblygiadau a hefyd y rhai a effeithir gan yr effeithiau rhanbarthol ehangach.

***Argymhelliad 52.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog OFGEM i sicrhau bod dull cyson a symlach o sicrhau a chodi tâl am gysylltiadau â'r grid yn achos prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**
Bydd Ofgem yn cyflwyno dull newydd o weithio gyda rheoleiddio'r rhwydwaith yn 2015, gan anelu at hybu rhwydweithiau mwy effeithiol ar gyfer dyfodol carbon isel. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i ddull newydd Ofgem i weithio. Cyflwynwyd canlyniadau Cronfa Rhwydweithiau Carbon Isel gwerth £500m Ofgem yng Nghynhadledd Rhwydweithiau Carbon Isel y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Byddwn yn parhau i ddatgan ein disgwyliadau yn glir ac yn gyson, sy'n cynnwys rhwydwaith grid a dosbarthu sy'n galluogi i ni wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau naturiol ar y tir ac ar y môr, a grid cynyddol effeithlon sy'n integreiddio ffynonellau ynni gwasgaredig ac ysbeidiol gyda thechnolegau storio newydd.

***Argymhelliad 53. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda datblygwyr a Renewable UK Cymru i gwblhau gwaith ar brotocol ar gyfer buddion cymunedol erbyn canol 2012.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar y cyd â datblygwyr a Renewables UK Cymru a chyhoeddir y casgliad yn fuan.

***Argymhelliad 54. Yn ogystal â chymunedau y mae datblygiadau ynni adnewyddadwy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, dylai'r protocol ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyfrannu at gymunedau sy'n cael eu heffeithio'n anuniongyrchol gan eu cynigion datblygu yn sgil y seilwaith cysylltiedig (ffyrdd a'r grid).***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae'r trafodaethau gyda datblygwyr ynni gwynt yn parhau ac yn cynnwys edrych ar sut mae datblygwyr yn ystyried cymunedau lleol i ddatblygiadau a hefyd y rhai a effeithir gan yr effeithiau rhanbarthol ehangach.

***Argymhelliad 55.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a hyrwyddo gwaith Ynni Cymunedol Cymru fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor i gymunedau lleol. Dylai ddarparu peth cyllid i Ynni Cymunedol Cymru fel y gall weithredu fel eiriolwr medrus i gynghori cymunedau lleol ar reoli a defnyddio cyfraniadau buddion cymunedol ar gyfer prosiectau ynni mawr a'r seilwaith cysylltiedig.*

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Ynni Cymunedol Cymru (YCC) wedi cael ei greu i efelychu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan Community Energy Scotland. Lansiwyd YCC yng Ngŵyl y Gelli 2012 ac mae'n gorff sy'n cynrychioli sefydliadau sydd â diddordeb yn y sector ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Mae disgwyl i YCC fabwysiadu rôl weithredol mewn cyfrannu at ddatblygu polisi ynni cymunedol Llywodraeth Cymru, gan ymateb

ar ran y sector i ymgynghoriadau Llywodraeth y DU a Chymru, a sicrhau bod y sector ar y blaen o ran datblygiadau, cyhoeddiadau a chyfleoedd cyllido.

Mae gan YCC ddiddordeb mewn edrych, gyda Llywodraeth Cymru, ar ffyrdd o fuddsoddi buddion cymunedol mewn prosiectau ynni i gefnogi gwelliannau pellach i seilwaith, i sicrhau'r budd economaidd a chymunedol gorau posibl, ac i ddatblygu technoleg arloesol gyda masnacheiddio yng Nghymru. Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cefnogi'r nod hwn wedi'u datblygu eto, gyda Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd, yn y lle cyntaf, gyda'r diwydiant ynni gwynt ar y tir a Renewables UK Cymru i gytuno sut gellir sicrhau'r buddion economaidd a chymunedol gorau posibl.

***Argymhelliad 56.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth i ymchwilio i ddichonoldeb diwygio polisïau cenedlaethol a chanllawiau cynllunio lleol cyfredol i ymgorffori ystyriaeth fwy cadarn a systematig i becynnau buddion cymunedol a lefelau tâl gorfodol gan ddatblygwyr ynni adnewyddadwy sydd wedi eu cysylltu'n ffurfiol â'r broses gynllunio/cydsynio.*

**Ymateb: Gwrthod**

Mae penderfyniadau ynghylch ceisiadau'n seiliedig ar rinweddau cynllunio, ac mae hynny'n egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu yn y system gynllunio. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yn rhaid gwneud pob penderfyniad cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod amgylchiadau perthnasol yn nodi'n wahanol. Gellir herio'r system gynllunio drwy gydol y broses o benderfynu ar geisiadau, a gallai ystyried budd cymunedol posibl yn y broses gwneud penderfyniadau ddwyn anfri ar y system.

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o fuddion cymunedol fel ymrwymiadau ddwy ffordd rhwng datblygwyr a'r gymuned. Fel rheol, trafodir y telerau y tu allan i'r caniatâd cynllunio. Os nad oes ffin amlwg rhwng y system gynllunio ac unrhyw fuddion perthnasol a allai ddeillio, gellid dehongli bod penderfyniadau cydsynio wedi cael eu prynu.

***Argymhelliad 57.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ffurfiol er mwyn i wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd am lefel a natur y buddion sy'n gysylltiedig â datblygu ynni sydd ar gael i gymunedau.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Ceir cytundeb cyffredinol rhwng Llywodraeth Cymru, Renewables UK a datblygwyr ynni gwynt ar y tir y dylai'r swyddogaeth hon fodoli. Mae creu a gweithredu'r mecanwaith adrodd yn ôl yn cael ei ystyried ochr yn ochr â darparu cefnogaeth i gymunedau.

***Argymhelliad 58.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyfnod ymgynghori cyn-ymgeisio ffurfiol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy rhwng 5 a 50 megawat, wedi'i fodelu ar weithdrefn Deddf Cynllunio 2008 ar gyfer Prosiectau Seilwaith Strategol Cenedlaethol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Ym mis Gorffennaf 2012 fe wnaethom gyhoeddi canllawiau newydd ar wireddu potensial trafodaethau cyn-ymgeisio. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bob math o ddatblygiadau a'u bwriad yw cefnogi ymgeiswyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol i leihau'r amser a gymerir wrth ymdrin â cheisiadau a gwella ansawdd y ceisiadau cynllunio. Byddwn yn ystyried ffurfioli'r camau cyn-ymgeisio yn y Papur Gwyn ar Gynllunio.

***Argymhelliad 59.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir i eiddo annomestig erbyn diwedd 2012 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae hawliau datblygu a ganiateir domestig ac annomestig wedi cael eu cyflwyno.

***Argymhelliad 60.*** *Wrth gefnogi/hyrwyddo Ynni Cymunedol Cymru (gweler argymhelliad 55), dylai Llywodraeth Cymru annog datblygiad pecyn cymorth a hyfforddiant penodol ar gyfer cymunedau sydd am ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**
Mae amrywiaeth o becynnau cymorth i helpu cymunedau ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan wedi cael eu datblygu ledled y DU. Fel rhan o'i hymrwymiad i gefnogi prosiectau ynni cymunedol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydgyllido'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth a elwir yn Llwybrau Cymunedol, sydd wedi cael ei ddylunio gan Fforwm Ymarferwyr Ynni Cymunedol.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu gwybodaeth ac arweiniad annibynnol a rhyngweithiol ar bron i 40 o wahanol ddulliau gweithredu cymunedol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd, gan gynnwys cyngor ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. Mae'n bosibl cael mynediad at y pecyn cymorth hwn drwy wefan, sydd hefyd yn darparu dolenni at amrywiaeth eang o enghreifftiau o brosiectau cymunedol sydd ar waith. Mae rhagor o

adnoddau a gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i bob math o brosiectau ar gael yn y wefan hon hefyd.

Mae ein prosiect Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Ynni'r Fro, yn darparu cymorth penodol i gymunedau sy'n dymuno rhoi prosiectau ynni adnewyddadwy bach ar waith. Un elfen bwysig o'r gefnogaeth a ddarperir drwy Ynni'r Fro yw'r rhwydwaith o Swyddogion Datblygu Technegol ledled Cymru sy'n gweithio'n agos â chymunedau sy'n dymuno datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac yn rhoi cymorth a chyngor technegol iddynt.

Bellach ceir nifer o adnoddau a phecynnau cymorth ar-lein ar arferion da mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy cymunedol, fel cyfleuster Ynni Cymunedol ar-lein yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, pecynnau cymorth lleol i helpu gyda materion cynllunio, ac adnoddau Community Energy Scotland, yn ychwanegol at waith y Llwybrau Cymunedol. Hybir y rhain ymhlith cymunedau drwy Ynni'r Fro ac mae gwaith y Swyddogion Datblygu Technegol gyda grwpiau cymunedol yn cynnwys defnyddio'r adnoddau hyn. Bydd yr arfer hwn yn parhau o dan unrhyw raglenni yn y dyfodol a fydd yn olynu rhaglen Ynni'r Fro.

***Argymhelliad 61.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi targedau diwygiedig ar gyfer Microgynhyrchu, o ystyried bod y targedau yng Nghynllun Gweithredu Microgynhrychu 2007 wedi'u disodli.*

**Ymateb: Gwrthod**

Pennwyd y targedau gwreiddiol cyn i Lywodraeth y DU sefydlu'r Cynllun Tariff Cyflenwi Trydan. Y cynllun hwn fu'r prif ysgogiad a chymhelliant i'r nifer sydd wedi manteisio ar dechnolegau microgynhyrchu ers iddo ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2010.

Mewn ymateb i'r galw a fu a'r angen am sicrhau y cedwir o fewn y gyllideb, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU wedi gostwng y tariffau sydd ar gael yn sylweddol, a hynny ar fyr rybudd. Yn benodol, mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith ar fesurau solar ffotofoltäig ar raddfa fechan ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n manteisio ar y dechnoleg hon.

Y Tariff Cyflenwi Trydan yw'r prif ffactor ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau microgynhyrchu. Yn dilyn y newidiadau diweddar mewn polisi, gostwng y tariffau yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfraddau defnyddio yn y farchnad fydd y brif ffordd o reoli costau i sicrhau bod y cynllun yn cadw o fewn y gyllideb a nodwyd. Oherwydd y bydd gostyngiadau yn y tariffau sy'n seiliedig ar y defnydd a wneir yn cael eu defnyddio i reoli'r niferoedd sy'n manteisio ar y farchnad, nid yw bellach yn briodol gosod targedau ar gyfer microgynhyrchu.

***Argymhelliad 62.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU ac OFGEM i ddatrys problemau o ran dehongli rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd lle mae prosiectau cymunedol yn gwneud cais am Dariffau Cyflenwi Trydan a hefyd yn derbyn cyllid o'r cronfeydd strwythurol.*

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos ag Ofgem a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i egluro effaith bosibl rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd ar y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Ynni'r Fro a chymhwysedd grwpiau cymunedol i dderbyn Tariffau Cyflenwad Trydan. O ganlyniad, yn y dyfodol agos bydd rhaglen Ynni'r Fro yn ehangu i gynnwys y cynnig o fenthyciad masnachol tuag at gost cyfalaf cynllun ynni adnewyddadwy, ac felly bydd hyn yn galluogi i gymunedau hawlio Tariffau Cyflenwi Trydan os ydynt yn dewis gwneud hynny. Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith yn awr.

***Argymhelliad 63.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu is-grŵp o'r Bwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy arfaethedig (gweler Argymhelliad 1) gyda chyfrifoldeb am ddatblygiadau ynni Morol a Llanwol ledled Cymru a dylid modelu hyn ar Ynni Morol Sir Benfro.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ffurfioli ei chynlluniau mewn perthynas ag ynni morol a bydd yn gwneud hynny gan ymgynghori â rhanddeiliaid yn y sector morol. Rydym yn bwriadu creu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid morol a fydd yn sail i'n cynlluniau, gan gynorthwyo gyda chael gwared ar rwystrau a chyflawni ein huchelgais. Mae disgwyl i'r grŵp hwn gael ei ffurfioli cyn yr haf.

***Argymhelliad 64.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth gadarn am lanwau, tonnau a cherhyntau o amgylch arfordir Cymru yn cael ei chasglu a'i rhannu â'r cyhoedd i leihau ansicrwydd ymysg darpar ddatblygwyr.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o adnewyddu ei mapiau cyfyngiadau System Gwybodaeth Ddaearyddol a grëwyd o dan brosiect y Fframwaith Strategol ar gyfer Ynni Morol Adnewyddadwy. Bydd mynediad i'r adnodd mapio cyfyngiadau ar y we ar gael i ddatblygwyr erbyn diwedd 31 Mawrth. Bydd y cyfleuster newydd yn cyflenwi gwybodaeth i ddatblygwyr ar

gyfyngiadau datblygu allweddol ar lefel prosiect a hefyd yn galluogi i ddatblygwyr lwytho eu data System Gwybodaeth Ddaearyddol eu hunain.

***Argymhelliad 65.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos â rhanddeiliaid sector preifat a chyhoeddus i archwilio potensial Aber Afon Hafren fel ffynhonnell o ynni llanwol adnewyddadwy.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Dethol Ynni a Newid Hinsawdd Ynni Llanwol Hafren a oedd yn edrych ar botensial Morglawdd Gorllewinol Caerdydd i gyflenwi trydan carbon isel yn y DU a'r gost debygol i ddefnyddwyr yn ogystal â'r effeithiau posibl ar fywyd gwyllt a chyflogaeth yn lleol. Rydym yn disgwyl Adroddiad y Pwyllgor. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Hafren Power i drafod eu cynigion yn fanylach.

***Argymhelliad 66.*** *Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda'r Sefydliad Rheoli Morol ar ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy, erbyn diwedd 2012 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn gyfrifol am swyddogaethau trwyddedu morol datganoledig o fis Ebrill 2013 ymlaen, yn gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol i gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol cyn gynted â phosibl yn 2013-14.

***Argymhelliad 67.*** *Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n llym gapasiti cyfan a lefelau'r tunelledd gwastraff sy'n gysylltiedig â safleoedd troi gwastraff yn ynni a gomisiynir gan awdurdodau lleol a dylai adolygu ei pholisïau ar drin gwastraff gweddilliol pan fo'r sefyllfa'n gliriach.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae'r gwaith monitro parhaus yr y capasiti gofynnol yn erbyn y tunelledd a gynhyrchir yn cael ei wneud gan gonsortia o awdurdodau lleol, sy'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i Swyddfa Caffael y Rhaglen Wastraff.

***Argymhelliad 68.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau cynllunio i annog datblygiad cyfleusterau sy'n cynnig yr opsiynau gorau ar*

*gyfer adfer gwres o wastraff, drwy'r diwygiadau i Nodyn Cyngor Technegol 21 (Cynllunio a Gwastraff) a chanllawiau atodol awdurdodau cynllunio lleol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae drafft ymgynghorol ffurf ddiwygiedig Nodyn Cyngor Technegol 21 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am dri mis ym mis Ebrill 2013.

***Argymhelliad 69.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o gyflwyno gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi mwy o bwyslais ar ailddefnyddio gwres ar gyfer cynlluniau gwresogi ardaloedd fel ystyriaeth sylfaenol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio am safleoedd troi gwastraff yn ynni.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym yn credu bod y canllawiau presennol a'r cymorth ym Mhennod 12 Polisi Cynllunio Cymru a'r Pecyn Cymorth ar gyfer Ynni Adnewyddadwy eisoes yn darparu'r cyd-destun er mwyn cyflawni hyn.

***Argymhelliad 70.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun drafft ar reoli gwastraff drafft ar gyfer y Sector Diwydiannol a Masnachol erbyn diwedd 2012 fan bellaf. Dylai hyn gynnwys cynlluniau gweithredu manwl yn y sector hwn ar gyfer gwahanu gwastraff bwyd yn y tarddle ac arallgyfeirio gwastraff bwyd o safleoedd tirlenwi i safleoedd treulio anaerobig ynghyd â ffyrdd o sicrhau gostyngiad cyffredinol a threfniadau gwaredu amgen ar gyfer pob math o wastraff o'r sector hwn.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun y Sector Masnachol a Diwydiannol yn cael ei lansio yng Ngwanwyn 2013. Mae Rhaglen Atal Gwastraff Cymru yn cael ei datblygu ar hyn o bryd fel rhan o'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer Cyfarwyddyd Fframwaith Gwastraff adolygedig Ewrop. Bu ymdrech ar y cyd i sicrhau bod y ddwy ddogfen yma'n cyd-fynd â'i gilydd. Bydd y ddwy'n cynnwys yr un ymyriadau arfaethedig a'r camau gweithredu ar gyfer atal gwastraff. Yn arbennig, y nod yw sicrhau bod modd unioni'r trafod a'r rhyngweithio gyda rhanddeiliaid (yn fewnol ac yn allanol).

Mewn perthynas â rheoli gwastraff bwyd, mae'r argymhelliad uchod yn parhau i gael ei ddatblygu yng nghynlluniau'r sector.

***Argymhelliad 71****. Cyhoeddwyd drafft ymgynghorol o Gynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd ar gyfer rheoli gwastraff ym mis Mawrth 2011. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn terfynol o'r cynllun hwn cyn gynted â phosibl, a bwrw ymlaen â'r camau gweithredu sydd ynddo i annog defnydd pellach o dreulio anaerobig ar gyfer trin gwastraff pydradwy a gynhyrchir gan y sector.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Bydd y cynllun terfynol ar gyfer y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd yn cael ei lansio ar ôl cyhoeddi Rhaglen Atal Gwastraff ddrafft i sicrhau bod y ddau gynllun yn cyd-fynd â'i gilydd. Bydd cynllun terfynol y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd yn cynnwys camau gweithredu i annog defnydd pellach o dreulio'r gwastraff pydradwy a gynhyrchir gan y sector yn anaerobig.

***Argymhelliad 72.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol i gynorthwyo datblygiad safleoedd treulio anaerobig bach ar ffermydd.*

***Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor***

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan dreulio anaerobig ar ffermydd ran i'w chwarae mewn cyrraedd targedau lleihau allyriadau newid hinsawdd a gall hefyd gynhyrchu ynni ar raddfa leol a gwella effeithlonrwydd y defnydd o faethynnau mewn cnydau. Mae'r Tariffau Cyflenwi Trydan ledled y DU a'r Cymhellion Gwres Adnewyddadwy yn darparu'r ffynonellau cyfredol o gymhellion ariannol i ffermydd sy'n ystyried opsiynau adnewyddadwy ar ffermydd, fel treulio anaerobig. Hefyd, mae rhaglen trosglwyddo gwybodaeth Cyswllt Ffermio (cyllid llawn) yn darparu cefnogaeth ar gyfer treulio anaerobig ar ffermydd, ac mae cyllid o 80% ar gael i ffermwyr cymwys ar gyfer cefnogaeth a hyfforddiant busnes un-i-un.

Ar 6 Rhagfyr 2012, cynhaliwyd gweithdy gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Is-grŵp Defnydd Tir Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru. Y bwriad oedd 'nodi'r rhwystrau sy'n atal manteisio ar gyfleoedd treulio anaerobig ar ffermydd'. Roedd nifer dda o swyddogion a rhanddeiliaid yn y digwyddiad, yn cynrychioli'r byd academaidd, y diwydiant amaethyddol, ymgynghorwyr a chyflenwyr annibynnol, a chyrff trwyddedu a rheoleiddio. Gwelodd y gweithdy bod posibl i ystod a graddfa'r her fod yn sylweddol, ond eu bod yn amrywio yn ôl maint y fferm, ac roedd y themâu cyffredin yn cynnwys y canlynol: materion cynllunio a chyfathrebu lleol, cyd-dreulio slyri/tail gyda gwastraff neu ddeunydd wedi'i docio, cyllid, cysylltu â'r grid, a datblygu sgiliau ac arbenigedd gweithredwyr. Mae adroddiad wedi'i baratoi ar y gweithdy, ac mae wedi'i ddosbarthu i Gomisiwn Newid Hinsawdd Cymru, cyfranogwyr y

gweithdy a swyddogion polisi perthnasol Llywodraeth Cymru ar gyfer ei ystyried mewn penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

***Argymhelliad 73.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes unrhyw awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod cydsyniad wedi'i dderbyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cynllun ynni dŵr cyn y bydd yn ystyried cais cynllunio. Dylid cynnwys y gofyniad hwn yn ei adolygiad o'r broses gynllunio/caniatáu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy (gweler argymhelliad 23).*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym yn derbyn y dylai'r system gynllunio fod mor effeithiol a chymesur â phosibl. Byddwn yn ystyried sut y gellir hwyluso mesurau effeithlonrwydd trwy'r Papur Gwyn ar Gynllunio ac mae sefydlu Un Corff yn cynnig cyfle i resymoli'r drefn gydsynio a chaniatáu.

***Argymhelliad 74.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog Asiantaeth yr Amgylchedd i fynd ati ar fyrder i lunio fersiwn diwygiedig o'i Chanllawiau Arfer Da ar gyfer cynlluniau ynni dŵr "Pen Uchel" i gynnwys dull cyson o 'wahanu llif' ledled Cymru a Lloegr, a gwneud hynny erbyn diwedd 2012 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Hyd yma, mae'r Asiantaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol ac wedi cwblhau rhan helaeth o'r adolygiad. Cyhoeddwyd crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd a'r ymatebion i'r prif faterion yn yr ymgynghoriad ym mis Hydref 2012. Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd yr Asiantaeth nodiadau cyngor atodol hefyd, yn rhoi sylw i ystod gyfyngedig o bynciau:

1. LIT 7511 Gofynion sgrinio
2. LIT 7513 Symudiad pysgod
3. LIT 7515 Coredau
4. LIT 7517 Cynlluniau cystadleuol

Hefyd golygodd yr Asiantaeth yr argraffiad cyfredol o'r Canllawiau Arfer Da i gynnwys cyfeiriadau at y nodiadau cyngor hyn lle bo hynny'n briodol ac i ddileu adrannau sydd wedi'u holynu yn awr, i atal dryswch. Mae'r cyngor, sy'n adlewyrchu'r arferion presennol i raddau helaeth, yn dod i rym ar unwaith a dylid ei gynnwys mewn ceisiadau ar gyfer cynlluniau newydd, wrth iddynt gael eu cyflwyno.

Ar ôl ystyried canlyniad yr ymgynghoriad yn fanwl, a'r trafodaethau cysylltiedig, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi penderfynu lansio Ymgynghoriad Atodol ar yr opsiynau ar gyfer safonau llif a thynnu ar gyfer

ynni dŵr yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol.  Pwrpas yr ymgynghoriad atodol hwn yw casglu safbwyntiau pellach ar safonau llif afon a thynnu dŵr.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad atodol ar Safonau Llif a Thynnu ar gyfer ynni dŵr ar 21 Ionawr 2013 ac mae'n agored ar gyfer ymgynghori yn ei gylch am 10 wythnos tan 2 Ebrill.

Ar ôl cau'r ymgynghoriad bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn llunio canllawiau ar gyfer cynlluniau ynni dŵr llif-afon.  Bydd y cyfrifoldeb am drwyddedu yng Nghymru'n trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru o 1 Ebrill 2013 ymlaen. Bydd y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma ar adolygu a diwygio'r Canllawiau Arfer Da ar gyfer Ynni Dŵr, yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad atodol, ar gael ar gyfer eu defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Y Canllaw Arfer Da yw'r ddogfen gyfeirio allweddol a ddefnyddir gan staff Asiantaeth yr Amgylchedd wrth brosesu ceisiadau ar gyfer datblygiadau ynni dŵr.  Mae disgwyl i'r ddogfen ddiwygiedig adlewyrchu'r gwahanol ddulliau a fabwysiedir yng Nghymru ac yn Lloegr mewn perthynas â'r gyfundrefn gydsynio.  Yng Nghymru, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio dull 'gwahanu llif' o weithredu wrth benderfynu ar ei chynlluniau, sy'n amhoblogaidd gyda chwmnïau datblygu ynni dŵr oherwydd mae'r dull hwn o weithredu'n golygu bod mwy o ddŵr yn cael ei golli i'r llwybr pysgod ac felly mae llai o ddŵr ar gael ar gyfer cynhyrchu ynni, o gymharu â'r dull o weithredu yn yr Alban a Lloegr, ble mae'r datblygwyr yn teimlo bod y systemau'n fwy hyblyg i ddatblygiadau ynni dŵr.

Mae gan Gymru amgylchedd dyfrol arbennig iawn sy'n cyfrannu at les cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y genedl.  I adlewyrchu'r gwerth hwn, mae llawer o'n hafonydd o dan warchodaeth ddwys cyfraith y DU ac Ewrop.  Mae'n rhaid penderfynu'n unigol ar bob cais ynni dŵr a bydd pawb sydd â diddordeb yn craffu ar y penderfyniadau ac yn eu herio.  Gall gwneud y penderfyniad iawn gynnwys asesiad technegol manwl iawn a barn arbenigol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn dadlau bod nifer uwch yn gyfrannol o safleoedd sensitif a phen uchel yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU ac felly bod angen dull o weithredu cadarnach wrth roi caniatâd i brosiectau ynni dŵr yma. Adlewyrchir hyn yn y defnydd o'r dull gwahanu llif o weithredu. Hefyd, er bod y broses yng Nghymru'n ymddangos yn llymach nag yn unman arall, mae'r Asiantaeth yn dadlau bod y broses o sicrhau caniatâd ar gyfer datblygiadau ynni dwr yn gyflymach yma nag yn unrhyw le arall yn y DU.

Mae disgwyl mai un o fanteision sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru fydd lleihau'r dyblygu mewn meysydd fel cydsynio a rhoi caniatâd i ddatblygiadau ynni.

***Argymhelliad 75.*** *Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi Ymchwil a Datblygu yng Nghymru er mwyn archwilio dichonoldeb technegol ac*

*economaidd prosesau dal a storio carbon ar gyfer gorsafoedd pŵer tân nwy sy'n bodoli eisoes a rhai'r dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Er bod cynnydd mewn nwy yn hanfodol mewn newid carbon isel, ni all fod yn ateb tymor hir i economi ynni Cymru heb ddulliau o ddal a storio carbon. Felly bydd dal a storio carbon, os bydd yn cael ei fasnacheiddio a'i gefnogi'n llwyddiannus gan y fframwaith rheoleiddiol priodol, yn rhan hanfodol o'n dyfodol o safbwynt ynni yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Rydym yn falch bod Cymru yn arwain y DU drwy'r prosiect peilot dal carbon yng Ngorsaf Bŵer Aberddawan, prosiect y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gefnogi o'r dechrau.

***Argymhelliad 76.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwmnïau preifat yn deall o'r cychwyn cyntaf fod gwerth hawliau eiddo deallusol sy'n gysylltiedig â buddsoddiad, lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu i helpu i gyllido gwaith Ymchwil a Datblygu ym maes ynni, yn mynd i gael ei rannu gyda'r corff cyllido o'r sector cyhoeddus.*

**Ymateb: Gwrthod**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Eiddo Deallusol y DU, "Eiddo Deallusol yng Nghontractau Ymchwil y Llywodraeth", polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai Eiddo Deallusol sy'n deillio o waith ymchwil a ariennir gan gyllid cyhoeddus fod yn perthyn i'r sefydliadau sy'n cynnal yr ymchwil hwnnw (y darparwyr ymchwil), yn hytrach na phrynwyr yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, diogelir buddiannau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys hawliau i ddefnyddio Eiddo Deallusol yn llawn ar gyfer anghenion polisi a busnes y Llywodraeth, ac i ganiatáu cyhoeddi gwybodaeth fel sy'n briodol yn unol â pholisi'r Llywodraeth) drwy ddarpariaethau addas dan gontract.

***Argymhelliad 77.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i lunio canllawiau technegol ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol newydd i helpu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer chwilio am nwy anghonfensiynol a'i echdynnu, gan gynnwys ceisiadau lle cynigir defnyddio ffracio hydrolig.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf:**

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a’r asiantaethau perthnasol i ystyried y wyddoniaeth newydd ar nwy anghonfensiynol, ac i sicrhau bod y polisi’n cael ei ddiweddaru. Nid ydym yn argyhoeddedig bod y materion yn ddigon gwahanol i gyfiawnhau Nodyn Cyngor Technegol newydd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-17-13 papur 2

## Ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### 1. Cyflwyniad

1.1. Mae llawer o rywogaethau anfrodorol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n bywydau, er enghraifft, ar ffurf da byw, cnydau, planhigion ar gyfer yr ardd ac anifeiliaid anwes. Dim ond lleiafrif bach o rywogaethau anfrodorol sy'n tyfu i fod yn oresgynnol, gan effeithio'n ddifrifol ar ein bywyd gwyllt brodorol, yr economi ac iechyd. Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld pa rywogaethau anfrodorol sy'n mynd i fod yn oresgynnol. Disgrifiwyd Rhywogaethau Goresgynnol Estron (IAS) (y cyfeirir atynt yn aml iawn fel Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol) fel y bygythiad mwyaf ond un ar ôl colli a distrywio cynefinoedd i fioamrywiaeth byd-eang a'r bygythiad mwyaf i ecosystemau bregus megis ynysoedd. Gyda'r cynnydd mewn teithio a masnach rhyngwladol, mae'r bygythiad hefyd yn cynyddu.

1.2. Yn ogystal â chael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, mae IAS hefyd yn cael effaith negyddol sylweddol ar yr economi ac ar iechyd pobl. Mae atal, canfod, rheoli neu ddileu yn weithgareddau hanfodol i reoli IAS ac mae angen defnyddio dull seiliedig ar risg wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn. Dylid seilio rhaglenni asesu a monitro IAS ar risgiau a llwybrau a nodwyd, ac mae angen gwell dealltwriaeth o'r rhain a mwy o waith ymchwil i lawer ohonynt o hyd. Mae angen defnyddio dull gweithredu strategol tymor hir cydlynol os ydym am i'r gwaith rydym yn ei wneud ym maes IAS fod yn effeithiol.

### 2. Gweledigaeth

2.1. Ein gweledigaeth yw diogelu bioamrywiaeth, ansawdd bywyd a buddiannau economaidd Cymru yn well rhag effeithiau andwyol IAS drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth eang o risgiau ac effeithiau andwyol IAS a sicrhau mwy o wyliadwriaeth rhagddynt;
- Ymdeimlad cryfach o gydgyfrifoldeb ar draws y llywodraeth, sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, rheolwyr tir a'r cyhoedd yn gyffredinol yng nghyswllt gweithredu ac ymddwyn mewn modd a fydd yn lleddfu ar y bygythiadau a berir gan IAS a'u heffeithiau; a
- Fframwaith a fydd yn gweithredu fel canllaw ar gyfer mentrau dileu, rheoli neu liniaru ar IAS ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol a fydd yn cyfrannu at leihau effaith andwyol sylweddol IAS ar rywogaethau a chynefinoedd bregus neu sensitif.

**3. Crynodeb o'r Prif Negeseuon**

3.1. Rhywogaethau goresgynnol estron yw un o'r prif bethau sydd i gyfrif am golli bioamrywiaeth ledled y byd ac maent yn achosi difrod economaidd-gymdeithasol sylweddol.

3.2. Mae IAS yn bygwth ein rhywogaethau brodorol a'u cynefinoedd drwy gyflwyno clefydau, er enghraifft, neu reibio, cystadlu am adnoddau, dadleoli neu drwy eu cau allan. Fel arfer mae ganddynt fanteision sylweddol oherwydd eu bod yn rhydd o glefydau, plâu a'u hysglyfaethwyr naturiol.

3.3. Maent yn gallu achosi difrod i fuddiannau economaidd megis coed, amaethyddiaeth a seilwaith – amcangyfrifir eu bod yn costio £1.7 biliwn i economi Prydain bob blwyddyn.

3.4. Mae gan Brydain Fawr Strategaeth ddatblygedig ar gyfer mynd i'r afael â materion cysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol estron a gyhoeddwyd yn 2008. Byddwn yn adolygu hon gyda rhanddeiliaid allweddol a gweinyddiaethau eraill Prydain Fawr yn ystod ail hanner 2013.

3.5. Yn sgil sefydlu'r Farchnad Sengl, mae angen dull gweithredu cydlynol ar draws yr UE os ydym am osgoi'r posibilrwydd o IAS yn cyrraedd yma o'r cyfandir heb unrhyw reolaethau.

3.6. Mae angen i ni ymgymryd â gwaith ymchwil i dechnegau newydd neu well o ganfod, mesurau bioddiogelwch effeithiol, rheoli poblogaethau a dileu.

3.7. Rhoi rhaglen cadw golwg a monitro ar waith a'i chynnal er mwyn canfod rhywogaethau goresgynnol estron newydd ac os yw poblogaethau y gwyddys amdanynt ar hyn o bryd yn lledaenu.

3.8. Mae cyfle i helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru er mwyn newid ymddygiad pobl. Mae hyrwyddo ymgyrchoedd arferion bioddiogelwch - e.e. "Atal Lledaeniad - Gwirio, Glanhau, Sychu" a "Mynd at Wraidd y Mater" yn allweddol i hyn.

3.9. Ennyn ymrwymiad grwpiau rhanddeiliaid allweddol sydd â rhan hollbwysig i'w chwarae o safbwynt rheoli'r prif ffyrdd y mae rhywogaethau goresgynnol estron yn cael eu cyflwyno a'u lledaenu gan gynnwys defnyddwyr dŵr, y fasnach arddwriaethol, y fasnach anifeiliaid anwes, rheolwyr tir, y sector adeiladu, a gwirfoddolwyr yn y gymuned.

3.10 Bydd gweithredu Rheoliadau IAS yr UE sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd ac adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt, sy'n cynnwys IAS, yn ddylanwadau pwysig o ran sut y caiff polisïau IAS eu datblygu yn y dyfodol.

## 4. Strategaeth Prydain Fawr

4.1. Mae Cymru, Lloegr a'r Alban wedi dewis cydweithio ar y mater trawsbynciol hwn a lansiwyd Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Goresgynnol Estron Prydain Fawr yn 2008. Mae'r Strategaeth yn nodi ein fframwaith lefel-uchel ac yn ymhelaethu ar y prif gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r problemau mae rhywogaethau goresgynnol estron yn eu hachosi. Mae'r strategaeth yn dilyn dull gweithredu hierarchaidd y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol sy'n rhoi blaenoriaeth i atal, yna canfod yn gynnar, ymateb cyflym, rheolaeth hirdymor a lliniaru.

4.2. Bwrdd Rhaglen Prydain Fawr sy'n arwain y gwaith o gydlynu gweithredu ar IAS, gyda chymorth Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr. Mae gan Fwrdd y Rhaglen gylch gwaith eang sydd, yn ei hanfod, yn hwyluso cysylltiadau polisi rhwng meysydd polisi allweddol perthnasol ac yn rhoi arweiniad strategol cyffredinol o ran gweithredu Strategaeth Prydain Fawr. Mae Ysgrifenyddiaeth GBNNS yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad, gan gynnwys llunio asesiadau o risg ar gyfer rhywogaethau unigol, sy'n gweithredu fel sail ar gyfer pennu blaenoriaethau yng nghyswllt IAS risg uchel. Sicrhawyd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru fel bod modd parhau â gwefan GBNNS. Mae Corff Rhaglen Prydain Fawr yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o blith holl Weinyddiaethau Prydain Fawr a'u hasiantaethau.

## 5. Cymru

5.1. Er mwyn cyflawni blaenoriaethau bioamrywiaeth, mae angen sefydlu trefniadau llywodraethu yng Nghymru sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o arbenigedd a gallu asiantaethau statudol, awdurdodau parciau cenedlaethol a lleol, a'r trydydd sector, ac sy'n sicrhau eglurder o ran awdurdod ac atebolrwydd ar yr un pryd. Diolch i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, mae gennym bartneriaeth gref a sylfaen gadarn ar gyfer llunio fframwaith sy'n cynnig llwybr clir o'r strategaeth i weithredu'r strategaeth honno ar raddfa leol sy'n manteisio ar alluoedd unigryw pob sefydliad cyfrannog.

5.2. Mae prif flaenoriaethau Cymru yn deillio o Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE hyd 2020 (EUBS). Mae Cymru yn cymeradwyo gweledigaeth a thargedau'r strategaeth hon, a bwriad y cynllun ar gyfer Cymru a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig yw galluogi Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol yng nghyswllt adnoddau naturiol ac i weithio tuag at gyflawni targedau'r EUBS.

5.3. Mae rhywogaethau goresgynnol estron wedi'u cynnwys yn y prif darged ar gyfer 2020, sef atal colli bioamrywiaeth a dirywiad gwasanaethau ecosystem yn yr UE erbyn 2020, a'u hadfer cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, a chynyddu

cyfraniad yr UE tuag at osgoi colli bioamrywiaeth fyd-eang. Dyma chwe tharged Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE:

- Gweithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar yn llawn;
- Cynnal ac adfer ecosystemau a'u gwasanaethau;
- Cynyddu cyfraniad amaethyddiaeth a choedwigaeth i fioamrywiaeth;
- Sicrhau y defnyddir pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy;
- Gwrthsefyll Rhywogaethau Goresgynnol Estron; a
- Cynyddu gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth byd-eang.

5.4. Er mwyn bodloni'r targed ar gyfer IAS, erbyn 2020, mae angen canfod IAS a'u llwybrau a phennu blaenoriaethau mewn perthynas â nhw, gyda rhywogaethau sydd â blaenoriaeth yn cael eu rheoli neu eu dileu, a llwybrau'n cael eu rheoli er mwyn atal cyflwyno a sefydlu rhywogaethau goresgynnol estron newydd. Nod Llywodraeth Cymru fydd mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, asiantaethau eraill, sefydliadau yn y sector preifat, sefydliadau yn y trydydd sector, cymunedau lleol a grwpiau budd allweddol.

5.5. Amlinellir ein dull gweithredu strategol presennol yng nghyswllt bioamrywiaeth yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru 2006. O safbwynt ei chyflawni, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru sy'n cynnwys amrediad eang o randdeiliaid, sy'n cynnwys asiantaethau statudol, awdurdodau lleol a chyrff anllywodraethol. Mae'r Grwpiau Ecosystemau Bioamrywiaeth yn cynnwys grŵp o arbenigwyr ar rywogaethau a Gweithgor Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Anfrodorol) Cymru.

5.6. Mae'r grwpiau'n dwyn ynghyd fuddiannau cynefin a rhywogaethau cysylltiedig perthnasol ar lefel Cymru i roi trosolwg annibynnol, integredig a gwybodus o ofynion gwarchodaeth yng nghyswllt ecosystemau a bioamrywiaeth. Mae'r grwpiau ecosystemau wedi cynnal ymarfer mapio o'r adnodd cynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru. Mae'r mapiau a'r crynodeb o gynefinoedd sy'n dod gyda nhw yn cynnig dull o bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i sefydliadau partner sy'n canolbwyntio ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd â'r angen mwyaf o ran rheoli ym mhob ardal ddaearyddol.

5.7. Hyd yma, mae'r agwedd tuag at atal, canfod a rheoli IAS yn aml wedi bod yn oportiwnistaidd ac yn adweithiol. Mae sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau o'r fath yn gryn her gydag unrhyw waith cysylltiedig ag IAS yn aml yn cael ei gyflawni fel rhan o brosiectau eraill ac mewn partneriaeth ag eraill. Rydym yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i fapio a chyfuno'r adnoddau sydd ar gael i helpu gyda'r gwaith o fynd i'r afael ag IAS mewn modd mwy cydlynol.

5.8. Un o swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cadeirio'r Gweithgor IAS. Mae'r Grŵp yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn ac yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol yng Nghymru ar ddatblygu, cyflawni a gweithredu Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Goresgynnol Anfrodorol Prydain Fawr yng Nghymru, fel y mae'n berthnasol i Gymru.

5.9. Cwmpas Gweithgor INNS Cymru yw:

- Hyrwyddo a hwyluso gweithredu strategol a chydlynol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yng Nghymru fel elfen integredig o weithredu ym Mhrydain Fawr;
- Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau goresgynnol anfrodorol morol, dŵr croyw a thir a'u heffeithiau ar ein holl gymunedau, gan gynnwys y rheiny yn ac yng nghyffiniau Cymru os ystyrir nhw yn berthnasol;
- Cydlynu a hyrwyddo'r gwaith o gofnodi, hysbysu a lledaenu gwybodaeth yng nghyswllt rhywogaethau anfrodorol, gan gynnwys gwybodaeth arolwg a chamau rheoli a ystyrir yn arfer gorau;
- Creu rhwydwaith o arbenigwyr perthnasol yng Nghymru a fydd yn cyfrannu gwybodaeth a chyngor at fforymau rhanbarthol a fforymau Prydain Fawr a grwpiau gweithredu lleol;
- Cydlynu a hyrwyddo'r gwaith o roi bioddiogelwch ar waith mewn modd cyfannol fel elfen hanfodol o reoli tir, dŵr croyw a'r môr, gan gynnwys newid defnydd, mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd cefn gwlad;
- Hyrwyddo a gweithredu Strategaeth INNS Prydain Fawr, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar rywogaethau goresgynnol (ISAP) a Chynlluniau Gweithredu ar Lwybrau (PAP) a chyfrannu at roi'r Strategaeth ar waith ar lawr gwlad yng Nghymru; a
- Rhoi cyngor ar faterion cysylltiedig ag INNS sy'n berthnasol i ddatblygu a gweithredu dull gweithredu ecosystemau, sy'n canolbwyntio ar wytnwch ac iechyd ecosystemau, fel y nodwyd ym Mhartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Cymru Fyw.

5.10. Ni lwyddodd strwythur Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gyflawni targedau Bioamrywiaeth 2010, ac, o gofio ymrwymiadau rhyngwladol i ailedrych ar y rhain yn unol â Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE erbyn 2020, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwyso a mesur opsiynau i sicrhau y cyflawnir y targedau hyn yn y dyfodol.

5.11. Ar lefel y DU, mae Cymru wedi ymrwymo i Fframwaith Bioamrywiaeth y DU. Nod y fframwaith hwn yw cyflawni'r gofynion yng nghyswllt meysydd o ddiddordeb cyffredin neu feysydd sydd heb eu datganoli (megis yr amgylchedd morol er enghraifft). Y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) sy'n gyfrifol am fonitro cyflawniad yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y fframwaith.

**6. Polisi Rhywogaethau Goresgynnol Estron**

6.1. O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r cyfrifoldeb dros bolisïau rhywogaethau goresgynnol estron o ddydd i ddydd yn rhan o Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth (LNFD) sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy. Mae'r LNFD yn cydweithio â nifer o fuddiannau polisi yn Llywodraeth Cymru i gydlynu a llywio'r dull gweithredu yng nghyswllt IAS.

6.2. Mae model llywodraethu clir a phriodol ar gyfer unrhyw waith IAS ar y cyd yn hanfodol ynghyd â chyfrifoldebau a swyddogaethau clir. Prif ffocws Llywodraeth Cymru yng nghyswllt IAS yw polisi a llywodraethu. Rhagwelwn mai'r corff amgylcheddol sengl newydd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, fydd yn gyfrifol am gyflawni strategaeth fframwaith Prydain Fawr ar gyfer IAS yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:

- Cryfhau dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o risgiau ac effeithiau andwyol IAS a sicrhau mwy o wyliadwriaeth rhagddynt;
- Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, rheolwyr tir a'r cyhoedd yn gyffredinol yn rhannu'r cyfrifoldeb dros gamau gweithredu ac ymddygiad a fydd yn lleddfu ar effeithiau IAS neu ar yr effeithiau maent yn eu hachosi; a
- Rheoli mentrau dileu er mwyn lleihau effaith IAS ar rywogaethau a chynefinoedd bregus neu sensitif.

6.3. Mae nifer o ofynion deddfwriaethol gan yr UE a'r DU yng nghyswllt IAS ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad B. Fodd bynnag, cydnabyddir bod lle i gryfhau'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer IAS ac i'w gwneud yn fwy clir. Gyda'r bygythiad cynyddol o du IAS, mae'r ffaith bod yr UE wrthi'n llunio Rheoliadau penodol ar gyfer IAS ar hyn o bryd yn amserol iawn; felly hefyd adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt y DU, a fydd yn cynnwys argymhellion ynghylch IAS. Gallai rhoi'r mentrau pwysig hyn ar waith yng Nghymru gael dylanwad o bwys ar gyfeiriad ein polisïau ar gyfer IAS yn y dyfodol.

6.4 Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd eisoes wedi cael llawer iawn o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ynglŷn â'r rhywogaethau goresgynnol estron mwyaf "amlwg" megis Canclwm Japan, Jac y Neidiwr, Rhododendron ac ati. Mae materion cysylltiedig â'r IAS hyn yn destun diddordeb a phryder mawr ymysg y cyhoedd, ac mae hynny'n ddealladwy. Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Abertawe a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cydweithio â'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd ar arbrofi â rheolaeth naturiol yng nghyswllt Canclwm Japan drwy ddefnyddio'r pryfyn psyllid Alphalari itadori (sboncyn y dail bychan). Dechreuwyd ar y gwaith hwn yng Nghymru a Lloegr yn 2011. Mae'r gwaith o fonitro effeithiolrwydd y dull rheoli posibl hwn yn parhau. Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Rheoli

Canclwm Japan (Fallopia japonica) mewn Contractau Tirlunio ac Adeiladu' (The Control of Japanese Knotweed (Fallopia japonica) in Construction and Landscape Contracts') yn rhoi sylw i rai o'r pryderon ynghylch Canclwm Japan. Yng nghyswllt yr IAS sefydledig hyn, bydd angen strategaethau rheoli strategol hirdymor.

6.4. Serch hynny, mae nifer o rywogaethau goresgynnol estron eraill yng Nghymru sy'n destun pryder.

6.5. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio â chydweithwyr eraill ym Mhrydain Fawr i ystyried nifer o brosiectau sydd wedi bod yn edrych ar sganio'r gorwel am rywogaethau anfrodorol newydd. Ers glaniad y "berdysen reibus" mae pryder penodol wedi codi ynghylch y posibilrwydd y gallai pysgod ('gobies' yn bennaf) a chreaduriaid di-asgwrn-cefn Ponto-Caspian eraill (e.e. creaduriaid cramennog eraill ayyb) gyrraedd y wlad hon. Mae Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) wedi cynnal ymchwil i'r llwybrau a allai gyflwyno'r rhywogaethau hyn. Mae'r Gymdeithas Fiolegol Dŵr Croyw wrthi'n llunio canllaw ar adnabod berdys ac isopodau a allai droi'n oresgynnol yn y dyfodol.

6.6. Mae Gweithgor IAS Cymru wedi llunio rhestr o IAS sy'n destun pryder yng Nghymru ac, yn fwy diweddar, wedi chwynnu'r rhestr honno er mwyn cynhyrchu asesiad cryno o'r rhywogaethau sy'n debygol o fod yn destun camau gweithredu yn y dyfodol a beth fyddai'r camau hynny (Atodiad A). Mae angen i ni wella'r systemau sydd gennym ar gyfer canfod unrhyw IAS newydd yn gynnar ar y tir ac yn yr amgylchedd morol er mwyn inni fod yn y sefyllfa orau bosibl i'w rheoli'n effeithiol. Bydd angen datblygu dulliau rheoli newydd er mwyn cryfhau ein gallu i ddelio a'r mathau hyn o rywogaethau goresgynnol estron.

6.7. Yn nhermau atal cyflwyno a rheoli lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron, yn ogystal â'r IAS hysbys, yn y blynyddoedd i ddod, mae'n bosibl y bydd Cymru'n canolbwyntio i raddau helaeth ar rywogaethau IAS newydd megis Misglen Quagga, y Gacynen Asiaidd, Cimwch America, Chwilen Gorniog Asia, y Tyllbryf Onn Emrallt, y Chwistrell Fôr Carped, Dikerogammarus haemobaphes (Perdysen Reibus) a Chimwch Afon America, lle mae cyfle o hyd i'w rheoli'n effeithiol.

**7. Bioddiogelwch**

7.1. Mae bioddiogelwch IAS yn gynyddol bwysig i weinyddiaethau Cymru, Prydain a Phrydain Fawr a Chyngor Iwerddon. Mae amryw o fentrau ar y gweill i wella arferion bioddiogelwch da ymysg rhanddeiliaid a'r llywodraeth. Yn ogystal, mae rheoli llwybrau cyflwyno o bwys strategol cynyddol ac yn debygol o fod yn bwnc a gaiff ei gynnwys yn unrhyw ddeddfwriaeth gan UE ar rywogaethau goresgynnol estron.

7.2. Mae datblygu mesurau bioddiogelwch effeithiol a hyrwyddo arferion ymddygiad da er mwyn helpu i reoli'r perygl o ledaenu neu o gyflwyno rhywogaethau goresgynnol estron yn parhau i fod yn hanfodol. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd a

dylanwadu ar ymddygiad yn fesurau allweddol o ran delio â rhywogaethau goresgynnol estron.

7.3. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cyfrannu at waith Gweithgor Bioddiogelwch NNS Prydain Fawr, a sefydlwyd gan Fwrdd y Rhaglen fel rhan o Strategaeth Prydain Fawr.

- **Atal Lledaeniad - "Gwirio, Glanhau, Sychu"**

7.4. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru yn cefnogi'r ymgyrch "Atal Lledaeniad - Gwirio, Glanhau, Sychu" a gyflwynwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr ac wedi cyfrannu at gynhyrchu posteri dwyieithog sydd wedi cael eu gosod mewn safleoedd allweddol ar hyd a lled Cymru.

7.5. Crëwyd "Gwirio, Glanhau, Sychu" mewn ymateb i ganfod y "Berdysen Reibus" (Dikerogammarus villosus) am y tro cyntaf yn 2010.

7.6. Ymgyrch bioddiogelwch yw “Gwirio, Glanhau, Sychu” sydd â’r nod o roi cyngor ymarferol i'r rhai sy'n defnyddio'r amgylchedd dŵr croyw megis genweirwyr a phobl sy'n defnyddio cychod a chychod hwylio. Cafwyd cefnogaeth ar draws y sectorau i’r ymgyrch hon ac mae gweinyddiaethau ar draws Prydain Fawr ac Iwerddon hefyd yn ei chefnogi. Mae’n arddel yr egwyddorion sylfaenol o wirio offer, ei lanhau ar ôl ei ddefnyddio, a'i sychu. Mae'r rhain yn gamau y gall pob defnyddiwr dŵr eu cymryd. Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys Awdurdod Harbwr Caerdydd yn sicrhau bod mesurau bioddiogelwch “Gwirio, Glanhau, Sychu” yn rhan o amodau a thelerau cystadleuaeth Cwpan Slalom Canŵ y Byd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd; a dangosodd archwiliad bioddiogelwch o TriathlonTata Steel bod trefniadau bioddiogelwch Eglwys Nunydd yn cyd-fynd â’r asesiad o risg. Mae Swyddogion Gorfodi Pysgodfeydd Lleol hefyd wedi ymgorffori codi ymwybyddiaeth o “Gwirio, Glanhau, Sychu” yn elfen gwirio trwyddedau eu gwaith yng nghyswllt y "Berdysen Reibus".

7.7. Mae Llywodraeth Cymru a hen gyrff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymwneud cryn dipyn â "Gwirio, Glanhau, Sychu", yn enwedig yng nghyswllt safleoedd gwarchodedig yng Nghymru. Mae swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'u swyddogion cyfatebol yn Defra a'r asiantaethau statudol er mwyn ystyried datblygiadau a sicrhau dull gweithredu cyson.

- **Mynd at Wraidd y Mater**

7.8. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymgyrch "Mynd at Wraidd y Mater” (a lansiwyd ym mis Chwefror 2010) sy’n tynnu sylw at y perygl posibl o gael gwared â phlanhigion dŵr yn y gwyllt. Mae’r ymgyrch hon yn rhoi sylw i’r llwybr pwysig hwn

drwy godi ymwybyddiaeth ymysg yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n prynu planhigion dŵr a thrwy gyswllt agos â diwydiant.

7.9. Mae canolfannau garddio wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau bod y negeseuon hyn yn cael eu cyflwyno'n effeithiol drwy gyfrwng mentrau megis rhoi logo "Mynd at Wraidd y Mater" ar labeli planhigion a darparu taflenni wrth werthu. Nod yr ymgyrch hon yw sicrhau bod planhigion digroeso yn cael eu compostio'n briodol a bod dŵr gwastraff o byllau yn cael ei waredu'n ofalus, yn ddigon pell oddi wrth nentydd, afonydd, pyllau a llynnoedd.

- **Gwaharddiad ar werthu**

7.10. Roedd asesiadau o risg a gynhaliwyd ar bum rhywogaeth o blanhigion goresgynnol - Dail-ceiniog Arnofiol, Briweg y Gors Awstralia, Briallu'r Dŵr, Rhedynen y Dŵr a Pluen Parot – yn awgrymu y gallai pob un ohonynt achosi difrod economaidd ac amgylcheddol sylweddol. Maent i gyd yn ffurfio carpedi trwchus ar wyneb afonydd, nentydd, llynnoedd a phyllau sy'n lladd planhigion tanddwr ac algae ac yn gostwng faint o ocsigen tawdd sydd yn y dŵr, sy'n arwain at ddirywiad mewn rhywogaethau dŵr eraill megis anifeiliaid di-asgwrn-cefn a physgod. Mae'r carpedi trwchus hyn hefyd yn cyfyngu ar fynediad cychod a genweirwyr i ddyfrffyrdd ac yn cynyddu'r risg o lifogydd, a allai olygu cynnydd mewn costau yn sgil gorfod delio â'r canlyniadau.

7.11. Bydd gwaharddiad ar werthu'r pum rhywogaeth oresgynnol hyn o blanhigion dan Adran 14ZA Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i newidiwyd) a bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr ym mis Ebrill 2014. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, bydd yn anghyfreithlon i unrhyw un gynnig gwerthu'r rhywogaethau hyn neu eu dangos i'w gwerthu, neu feddu arnynt neu eu cludo at ddibenion gwerthu.

- **Casgliad**

8. Nid yw taclo IAS yn beth newydd ac mae'n amlwg ei fod yn fater cymhleth oherwydd yr ystod o ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a thechnolegol cysylltiedig a'r rhyngweithio rhyngddynt. Mae'r cyfyngiadau ar gyllid a'r diffyg o safbwynt sylfaen dystiolaeth gref yng nghyswllt IAS yn cymhlethu pethau fwy byth. Mae camau atal a chanfod buan yn allweddol, ond mae hefyd angen polisïau rheoli strategol ar gyfer IAS sydd wedi ennill eu plwy. Mae angen datblygu mwy ar ein dull gweithredu integredig yng nghyswllt rheoli IAS yng Nghymru er mwyn cyflawni ein hamcanion ar gyfer bioamrywiaeth, ansawdd bywyd a buddiannau economaidd a sicrhau ecosystemau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

**Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth** Mai 2013

Llywodraeth Cymru

**Atodiad A**

Mae **Gweithgor INNS Cymru** wedi blaenoriaethu ei waith fel a ganlyn:

**Rhywogaethau Rhybudd Uchel –** rhywogaethau nad ydynt yng Nghymru ar hyn o bryd a fydd yn cael eu blaenoriaethau ar gyfer ymateb cyflym i atal iddynt ymsefydlu a lledaenu. Mae'r rhain yn rhywogaethau sydd wedi profi'n hynod oresgynnol, yn niweidiol neu â goblygiadau economaidd neu o ran iechyd pobl.

Dyma'r rhywogaethau a gynhwysir: Undaria pinnatifida (Gwymon/wakame Siapaneaidd), Gyrodactylus salaris (parasit pysgod), Dresissena bugensis (misglen quagga), Rapana venosa (gwichiad rapa), Thaumetopoea precessionea (gwyfyn ymdeithiol y derw), Vespa velitina (cacynen asia), Waterispora subtorquata (bryosoad), Hemimysis anomala (perdysen furgyn), Cimwch (pob rhywogaeth anfrodorol ac eithrio Pacifastacus leniusculus), Hydropotes inermis (ceirw dŵr Tsieineaidd), Myiopsitta monachus (parotanod mynach), Lithobates catesbeianus (Marchlyffant America), Mesotriton alpestris (madfall ddŵr alpaidd), Triturus carnifex (madfall ddŵr gribog Eidalaidd).

**Prosiectau dileu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol –** rhywogaethau a oedd wedi sefydlu mewn niferoedd bychain neu mewn lleoliadau ar wahân lle y credir o hyd y gellir eu dileu.

Dyma'r rhywogaethau a gynhwysir: Didemnum vexillum (Chwistrell fôr carped), Siluris glanis (Cathbysgod Ewropeadd (Wels)), Pseudorasbora parva (gwyniaid pendew 'Topmouth gudgeon'), Cervus Nippon (Ceirw Sica), Oxyura jamaicensis (Hwyaden Goch), Psittacula krameri (parotanod gyddfdorchog), Zamensis longissimus (Neidr Esgwlapaidd), Hydrocotyle ranunculoides (Dail-ceiniog arnofiol), Acaena novae-zelandiae (Piri-piri), Disphyma crassifolium (llysiau gwlithog porffor), Ludwigia grandiflora (Briallu'r Dŵr).

**Rheolaeth strategol –** rhywogaethau sydd eisoes wedi ymsefydlu'n eang ond lle y gallai rheolaeth leol fod yn angenrheidiol. Ar gyfer pob un o'r rhywogaethau hyn bydd ystod o opsiynau gan gynnwys rheoli neu ddileu yn lleol, cyfyngiant, parthau diogelu, lliniaru safleoedd arc/lloeren.

Dyma'r rhywogaethau a gynhwysir: Grateloupia turuturu (Alga Brown), Dikerogammarus villosus (Perdysen), Crepidula fornicata (Ewinedd moch America), Dreissena polymorpha (Misglod rhesog), Tiostrea lutaria (Wystrys Seland Newydd), Corbicula fluminea (Cregyn bylchog Asia), Crassostrea gigas (Wystrys Pasiffig), Crangonyx pseudogracilis (amffipodau), Eriocheir sinensis (Crancod menigog), Pacifastacus leniusculus (Cimwch afon America), Gammarus tigrinus (amffipod), Sander lucioperca (Draenogyn penhwyad), Branta Canadensis (gŵydd Canada), Muntiacus reevesi (myntjac Reeve's), Mustela vison (Mincod), Sciurus carolinensis (wiwer lwyd), Capra hircus (geifr gwyllt), Fallopia japonica (Clymog Japan), Cotoneaster bullatus, microphyllus, horizontalis, simonsii, integrifolius (Creigafal

anfrodorol), Carpobrotus edulis (Ffigys y Penrhyn), Azolla filiculoides (Rhedynen y dŵr), Crassula helmsii (Corchwyn Seland (Newydd /Bryweg Awstralia, Lagarosiphon major (Ffugalaw crych), Lysichiton americanus (Pidyn y gog Amwericanaidd), Myriophyllum aquaticum/brasiliense (Pluen Parot), Persicaria wallichii/Polygonum polystachyum (Clymog yr Himalaya), Fallopia sachalinensis (y Glymog Fawr), Heracleum mantegazzianum (Efwr Enfawr), Hippophae rhamnoides (Rhafnwydden y môr), Impatiens glandulifera (Jac y Neidiwr), Rhododendron ponticum (a chroesrywiau), Rosa rugosa (Rhosyn Japan)

Mae llawer o'r rhywogaethau a nodwyd yn y tair rhestr wedi'u cynnwys yn y 100 uchaf o rywogaethau ymledol anfrodorol yn 'Delivering Alien Invasive in Europe' (DAISIE).

Yn aml mae data cywir ac wedi'i ddiweddaru ar y rhywogaethau goresgynnol estron hyn yn anodd ei gasglu ynghyd.

I gynorthwyo wrth ystyried blaenoriaethau o ran Rhywogaethau Goresgynnol Estron, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ADAS i fireinio'r fframwaith gwneud penderfyniadau ymhellach i helpu i flaenoriaethu camau ar rywogaethau ymledol anfrodorol.

**Atodiad B**

**DEDDFWRIAETH**

Mae datblygiad polisi ar rywogaethau goresgynnol estron yn Ewrop wedi ei yrru gan gytundebau rhyngwladol, yn bennaf dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a Chonfensiwn Bern. Amrywiol fu'r ymrwymiad polisi ar draws yr UE, gan olygu tirwedd polisi anwastad iawn a lefelau amrywiol o weithredu i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron. Daeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r casgliad y bydd angen i Strategaeth IAS yr UE fod ar ffurf deddfwriaeth os yw am gyflwyno dull mwy cydlynol effeithiol yn y DU. Ar hyn o bryd mae'r UE yn datblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth IAS y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Mae'n debygol y bydd deddfwriaeth arfaethedig yr UE yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Aelod Wladwriaethau i weithredu ar IAS a fydd yn cynyddu'r camau gofynnol ar IAS yn sylweddol.

**Deddfwriaeth Ddomestig**

- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Adran 14 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yw'r brif ddeddfwriaeth yn ymdrin â rhyddhau rhywogaethau anfrodorol. Diwygiwyd hyn gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yng Nghymru a Lloegr. Mae Adran 14 yn ei gwneud yn anghyfreithlon caniatáu i unrhyw anifail nad yw fel arfer yn byw ym Mhrydain Fawr, neu a restrir yn Atodlen 9 i'r Deddf, ddianc i'r gwyllt. Mae hefyd yn anghyfreithlon plannu neu achosi fel arall i unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodlen 9 y Ddeddf, dyfu yn y gwyllt. Mae troseddau dan Adran 14 yn cario cosb uchaf o £5,000 o ddirwy a/neu 6 mis o garchar am euogfarn ddiannod a dirwy ddiderfyn a/neu 2 flynedd o garchar ar dditiad.

- Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Cymru a Lloegr) 2010 (Amrywio Atodlen 9)

Mae'r amrywiad, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn rhoi manylion cynnwys a thynnu ymaith sawl rhywogaeth o anifeiliaid a phlanhigion o Atodlen 9.

- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006

Mae Adran 50 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wahardd gwerthu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol y gwyddys eu bod yn achosi difrod yng Nghymru a Lloegr. Mae Adran 51 Deddf NERC yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi codau ymarfer na ellir eu defnyddio ar eu pen eu hunain i erlyn ond y gellir eu defnyddio mewn llys barn i ddangos na chymerodd y diffynnydd y rhagofalon angenrheidiol (neu ofal priodol) i atal difrod a achoswyd drwy ryddhau rhywogaethau anfrodorol.

- Deddf Mewnforio Pysgod Byw 1980

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi grym i'r Gweinidog perthnasol wneud Gorchmynion i wahardd neu drwyddedu mewnforio, cadw neu ryddhau rhywogaethau pysgod anfrodorol a allai niweidio cynefin, cystadlu â neu ysglyfaethu unrhyw bysgod dŵr croyw, pysgod cregyn neu eogiaid. Mae'r Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) 1998 a wnaed dan Deddf Mewnforio Pysgod Byw yng Nghymru a Lloegr, yn gwahardd cadw neu ryddhau heb drwydded 26 rhywogaeth neu dylwythau o bysgod anfrodorol. Mae'r Gorchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (Cimychiaid yr Afon) 1996 yn anelu at atal Cimwch Afon America rhag ymledu ymhellach, ac mae'n gwahardd cadw pob rhywogaeth arall o gimwch yr afon anfrodorol heb drwydded yng Nghymru a Lloegr.

- Deddf Iechyd Planhigion 1967; Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006; Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2006

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu mesurau diogelwch yn erbyn cyflwyno organebau sy'n niweidiol i blanhigion a chynnyrch planhigion. Mae'r Gorchmynion yn gweithredu Cyfarwyddeb yr UE 77/93/EEC, sydd bellach wedi'i chyfuno i Gyfarwyddeb 2000/29/EC, ac fe'i gweithredir gan Weinidogion Cymru yng nghyswllt Cymru. Gweithredir y Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) gan y Comisiwn Coedwigaeth.

- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

Mae'r Ddeddf hon yn diweddaru ac yn diwygio rhannau o Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn ymwneud â rhywogaethau anfrodorol yng Nghymru a Lloegr.

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Mae'r Ddeddf hon yn dosbarthu pridd a gwastraff arall sy'n cynnwys mân egin rhywogaethau goresgynnol anfrodorol fel gwastraff a reolir. Cymhwyswyd hyn i Glymog Japan gyda'r canlyniad fod yn rhaid i wastraff sy'n cynnwys y rhywogaeth hon (Fallopia japonica) gael ei waredu'n unol â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd a luniwyd i atal y planhigyn rhag ymledu ymhellach.

- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 (fel y'i diwygiwyd)

Mae Adran 30 yn ei gwneud yn drosedd cyflwyno unrhyw bysgod i ddyfroedd mewndirol heb ganiatâd Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal â chynnwys rhywogaethau anfrodorol, mae'r Ddeddf hon hefyd yn gwahardd cyflwyno rhywogaethau brodorol o tu hwnt i'w hamrediad naturiol.

**Comisiwn y Gyfraith**

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi lansio adolygiad o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr gyda golwg ar ddatblygu fframwaith hyblyg wedi'i symleiddio a'i ddiogelu o ran polisi i'r dyfodol. Mae allbynnau'r adolygiad hwn yn cynnig pwerau newydd ar gyfer mynd i'r afael ag IAS. Cyn deddfwriaeth IAS gan yr UE, mae

Comisiwn y Gyfraith wedi penderfynu llunio cynigion a fyddai'n darparu arfau deddfwriaethol i sicrhau bod y system IAS yn gweithredu'n briodol.  Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau a fyddai'n caniatáu mynd ar dir er mwyn rheoli IAS.  Hefyd, cyflwyno pwerau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i grŵp penodedig o bobl roi rhybudd o IAS pan ddaw'r bobl hynny'n ymwybodol o bresenoldeb y rhywogaeth.  Dylid defnyddio'r pwerau hyn yn gymesur, yn rhesymol a chyda ffocws.

**Deddfwriaeth gysylltiedig yr UE**

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn cynnwys IAS:

- Confensiwn Bonn ar Gadwraeth Rhywogaethau o Anifeiliaid Gwyllt Mudol
- Confensiwn Berne ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd
- Cyfarwyddeb ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a chreaduriaid a phlanhigion gwyllt
- Cyfarwyddeb ar gadwraeth adar gwyllt
- Rheoliadau Masnachu mewn Bywyd Gwyllt yr UE
- Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Cyfarwyddyd Fframwaith Strategaeth Forol
- Rheoleiddio Dyframaethu
- Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol
- Confensiwn ar Wlyptiroedd
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr
- Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion

Yn ogystal â deddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd gweithredu gwirfoddol ac ar y cyd rhwng sefydliadau a chefnogi cyflawni amcanion polisi drwy ddarparu cyngor ac arweiniad o ran rhannu arfer gorau lle bo hynny'n briodol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 23 Mai 2013** |
| Amser: | **09:40 - 11:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_23_05_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**Julie Morgan**<br>**William Powell**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | **Ceri Davies, Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>**Natalie Hall, Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>**Jennifer Ramsay, Community Energy Scotland** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Chloe Chadderton (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson.  Nid oedd neb yn dirprwyo.

## 2 Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru: Ymchwiliad ar ôl adroddiad – tystiolaeth gan Community Energy Scotland

2.1 Bu Jennifer Ramsay yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

**Cam i'w gymryd**

- Cytunodd Jennifer Ramsay i roi manylion i'r Pwyllgor am faint o'r targed o gynhyrchu 500MW drwy brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a oedd wedi ei gyrraedd hyd yn hyn.

## 3 Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru: Ymchwiliad ar ôl adroddiad – tystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y tystion i ddarparu:

- Y dadansoddiad gwyddonol sy'n sail i unrhyw ganlyniadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad ar *safonau llif afon ac echdynnu dŵr ar gyfer ynni dŵr*;
- Canlyniad yr Asesiad Risg Amgylcheddol o nwy siâl a gynhaliwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru; a
- Dadansoddiad fesul sector o'r galwadau a gafwyd i'r ganolfan gwasanaeth i gwsmeriaid sydd newydd ei chreu.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

**Ymchwiliad i rywogaethau goresgynnol estron – Papur gan Cyswllt Amgylchedd Cymru**

4.2 Nododd y Pwyllgor y papur.